Foundational Economy Research

# Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i gynyddu nifer y cwmnïau BBaCh sydd wedi'u gwreiddio ym maes prosesu a dosbarthu bwyd?

**Adroddiad gan Foundational Economy Research**

Mehefin 2021

**Hawlfraint** © Mae Andrew Bowman, Julie Froud, Colin Haslam, Sukhdev Johal, Kevin Morgan, Karel Williams yn mynnu eu hawl i gael eu hadnabod fel awduron y gwaith hwn

**Dyddiad cyhoeddi:** 12 Awst 2021

**Cyhoeddwr:** Foundational Economy Research[1]

[1] Yn masnachu fel Foundational Economy Research Limited

## Cynnwys

Crynodeb gweithredol ........ 5

Ymchwil gweithredol ar y system fwyd o safbwynt economi sylfaenol ........ 8

Ffynonellau a dulliau system fwyd a modelau busnes ........ 9

**Dadansoddiad** ........ Error! Bookmark not defined.

1. **Cyd-destun BBaCh Cymru** ........ 11

*Siomedigaethau polisi cymorth busnes* ........ 11

*System fwyd Cymru* ........ 11

*Mae prosesu bwyd yn fusnes anodd* ........ 11

*Gogblygiadau polisi:* ........ 13

**2. Canlyniadau siomedig: nid yw ymdrech bolisi â phwyslais yng Nghymru o ran cymorth busnes yn cynyddu'r stoc o BBaChau** ........ 14

*Mae datblygiad busnesau a marchnad Cymru yn cynnig system cyngor a chymorth meddal o'r radd flaenaf i broseswyr bwyd* ........ 14

*Ond mae ein tystiolaeth cyfres amser yn dangos bod yr enillion o ran stoc gynyddol o BBaChau mwy yn brin* ........ 14

*Goblygiadau polisi:* ........ 16

**3. System fwyd Cymru: y ffrâm galed o amgylch cwmnïau prosesu a llunwyr polisi** ........ 18

*Mae arbenigedd cul amaethyddiaeth Cymru yn golygu system fwyd sy'n ddibynnol ar allforio a mewnforio* ........ 18

*Gellir cael mynediad at alw cyfradd fawr drwy'r cyfryngwyr, yr archfarchnadoedd a'r dosbarthwyr gwasanaeth bwyd yn unig* ........ 19

*Mae polisi sylfaenol Cymru wedi methu â rhoi sylw i gyfyngiadau a thueddiadau strwythurol system gyfan yn system fwyd Cymru* ........ 21

*Goblygiadau polisi:* ........ 22

**4. Mae prosesu bwyd yn fusnes anodd: yn gofyn am lawer o alluoedd ac yn cynhyrchu ychydig o arian parod** ........ 24

*Wedi'u gwasgu rhwng costau mewnbwn a phrisiau allbwn: mae maint elw arian parod o 6% yn dda* ........ 24

*Amodau llwyddiant a methiant cwmnïau: gallu cynhyrchiol, marchnad ac ariannol* ........ 26

*Mae ymadael yn hawdd* ........ *26*
*Y model busnes diofyn* ........ *27*
*(a) dibyniaeth ddarbodus ar enillion a gedwir a dosbarthiad cyfyngedig* ........ *27*
*(b) y cyfyngiadau ar fenthyg i fuddsoddi mewn twf cam nesaf* ........ *28*
*Goblygiadau polisi:* ........ *28*
**Blaenoriaethau gweithredu** ........ **30**
*Beth ddylid ei wneud? Ymyriadau yn seiliedig ar ddiffiniad o broblem* ........ *30*
*(1) Archfarchnadoedd fel y cyfle cyfradd fwyaf i BBaChau* ........ *32*
*(2) Dosbarthu gwasanaeth bwyd fel cyfle galw cyfradd fawr arall* ........ *34*
*(3) Seilwaith i ddatblygu gallu cynhyrchiol, marchnad ac ariannol ar yr ochr gyflenwi 36*
*(4) Seilwaith i leddfu'r cyfyngiad benthyca diogel ar ehangiad BBaChau* ........ ***Error! Bookmark not defined.***
*Casgliad* ........ **40**
**Atodiadau** ........ **43**
*Atodiad 1: Problem canol coll Cymru* ........ *44*
*Atodiad 2: Y stoc o fentrau yng Nghymru ym meysydd prosesu bwyd a diodydd* ........ *46*
*Atodiad 3: Amaethyddiaeth a chyflenwad bwyd Cymru – dibyniaeth ar allforio a mewnforio* ........ *49*
*Atodiad 4: Nodweddion gweithredu ariannol 29 o gwmnïau prosesu bwyd a diod* ........ *51*
*Atodiad 5: cronfa ddata Atamis o gaffael sector cyhoeddus Cymru* ........ *59*

# Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i gynyddu nifer y cwmnïau BBaCh sydd wedi'u gwreiddio ym maes prosesu a dosbarthu bwyd?

## Crynodeb gweithredol

- Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad gwreiddiol ac yn gwneud argymhellion o safbwynt economi sylfaenol. Mae'n canolbwyntio ar system fwyd Cymru o'r pridd i'r plât ac ar fodelau busnes proseswyr a dosbarthwyr BBaCh. Mae'n adeiladu sail dystiolaeth am stociau a llifau system fwyd o fewn Cymru a thu hwnt ac am anawsterau adfer costau ar lefel cwmnïau. Yna mae'n argymell cyfres o bolisïau cydgysylltiedig a allai gynyddu stoc Cymru o gwmnïau wedi'u gwreiddio.

- Mae system fwyd Cymru yn dibynnu'n fawr iawn ar fewnforion ac allforion bwyd gan fod gan ffermwyr arbenigeddau cul ym meysydd cig a bwyd llaeth am resymau hinsawdd a thopograffi. Ond mae defnyddwyr Cymru eisiau deiet amrywiol a gall galw ychydig dros 3 miliwn o ddefnyddwyr yng Nghymru amsugno cyfran fach yn unig o brif allbynnau ffermydd Cymru. Dim ond 5% o allbwn cig coch Cymru sy'n cael ei fwyta yng Nghymru.

- Mae prosesu bwyd a diod BBaCh yn fusnes heriol gan ei fod wedi'i leoli yng nghanol cadwyd rhwng ffermwyr a chyfryngwyr (archfarchnadoedd a dosbarthwyr gwasanaeth bwyd). Y cyfryngwyr hyn yw'r unig borth i alw cyfradd fawr: er enghraifft, mae aelwydydd Cymru yn gwario mwy na £3,000 miliwn y flwyddyn ar fwyd mewn archfarchnadoedd lleol tra bod gwariant sector cyhoeddus Cymru ar fwyd ac arlwyo ychydig dros £90 miliwn.

- Nid yw stoc Cymru o BBaChau ym maes prosesu bwyd a diod wedi cynyddu yn sylweddol yn y degawd diwethaf oherwydd bod gan y model busnes elw gweithredu cyfyngedig, gallu cyfyngedig i gynhyrchu arian parod ac ansicrwydd, wedi'u hysgogi gan gystadleuaeth prisiau ddwys yn y sector archfarchnadoedd a'r sector dosbarthu gwasanaeth bwyd. Pan fydd proseswyr galluog yn ennill contractau archfarchnad newydd neu'n ehangu eu systemau dosbarthu, maent yn ei chael yn anodd ariannu gofynion buddsoddi ehangiad sylweddol o enillion a gedwir neu fenthyg gan fanciau.

- Mae'r broblem yn wahanol ym maes dosbarthu gwasanaeth bwyd. Yma, mae gan Gymru yr ased strategol o ddosbarthwyr bwyd annibynnol BBaCh yng Nghymru sydd mewn perchnogaeth deuluol, yn ehangu ac yn llwyddiannus. Ond nid ydynt wedi cael eu cymell yn uniongyrchol eto i gefnogi cynhyrchwyr yng Nghymru. Mae eu sail ranbarthol a'u sefyllfa weithredu gref yn golygu bod y ddau gwmni hefyd mewn perygl o gael eu prynu gan gwmnïau cadwyn cenedlaethol a'u hisraddio i ganolfannau dosbarthu.

- Egwyddor gyntaf y dull sylfaenol yw datblygu polisïau penodol i'r system sy'n cael eu haddasu i nodweddion penodol ac amrywiol gwahanol systemau dibyniaeth. O ystyried nodweddion mewnforio ac allforio uchel system fwyd Cymru, mae obsesiwn polisi cyhoeddus hirhoedlog Cymru ar leoliaeth cod post a symud galw sector cyhoeddus i gwmnïau â phencadlys lleol yn amherthnasol i raddau helaeth. Gall caffael cyhoeddus fod yn bwysig i'r system fwyd ond dim ond os gellir ei ddefnyddio mewn ffordd fwy perthnasol a strategol.

- Mae polisi cyhoeddus ar fwyd yn gymhleth o reidrwydd ac yn cynnwys amcanion diwylliannol-gymdeithasol fel diwygio ansawdd y plât cyhoeddus a diwygio deiet ar gyfer iechyd y cyhoedd. Ond, cyn belled ag y bo'r pwyslais ar effeithiau economaidd cyfradd uchel, ychwanegu gwerth a chyflogaeth, mae'n rhaid mai'r prif nod yw cynyddu'r stoc o BBaChau cymwys sy'n bwydo i mewn i'r systemau cyfryngol yng Nghymru a thu hwnt. Mae BBaChau sydd wedi'u gwreiddio yng Nghymru trwy asedau neu berchnogaeth yn fwy gwerthfawr gan eu bod yn nodweddiadol yn cyfuno galluoedd cynhyrchiol, marchnad ac ariannol y ceir diffyg ohonynt yng nghanghennau cynhyrchu neu ddosbarthu Cymru rhieni corfforaethol mwy.

- Gallai polisi cyhoeddus wneud mwy ac yn well i dyfu'r stoc o BBaChau wedi'u gwreiddio pe bai isadrannau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn llunio polisi ar gyd-ddealltwriaeth o nodweddion y system fwyd ac yn cydgysylltu cyfres o gamau gweithredu sy'n lleddfu'r cyfyngiadau model busnes. Mae tyfu stoc o BBaChau mwy ym maes prosesu a dosbarthu bwyd yn broblem gymhleth a heriol ond mae'n agored i gyfres seiliedig ar dystiolaeth o gamau gweithredu.

- Gyda chyfres o ymyriadau sylfaenol cysylltiedig ar draws y system fwyd, gallai llunwyr polisi gael mwy yn ôl o'r ymdrech â phwyslais sydd eisoes yn cael ei wneud o ran cymorth a datblygiad busnes bwyd BBaCh. Mae'n rhaid mai llunwyr polisi sy'n gyfrifol am bolisi manwl, ond mae'r dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn amlygu tri maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu lle mae angen polisïau arloesol a gallent wneud gwahaniaeth sylweddol i gyd gyda'i gilydd.

- **<u>Blaenoriaeth (1)</u> Dechrau sgwrs gyda'r cadwyni archfarchnad am fwy o ymdrech i recriwtio cyflenwyr BBaCh yng Nghymru a symud tuag at fesurau canlyniadau.**

  Mae'r manwerthwyr hyn yn cydnabod bod stoc o Gymru yn wahaniaethydd marchnad y mae cwsmeriaid eisiau ei weld fwyfwy ar y silffoedd ac mae hwn yn gyfle cyfradd fawr. I raddau amrywiol, mae'r rhan fwyaf o archfarchnadoedd y DU yn rhedeg rhaglenni datblygu cyflenwyr i gynhyrchwyr amaethyddol domestig a/neu BBaChau. Fodd bynnag, o'r ddau safbwynt nid ydynt wedi ymrwymo adnoddau digonol yn gyffredinol ar gyfer newid sylweddol parhaol yng Nghymru. Nid oes ganddynt chwaith ddulliau cydlynol a chyson a all gael eu hasesu yn allanol a'u cydgysylltu tuag at effaith systematig hirdymor. Yma, gall Llywodraeth Cymru gychwyn sgyrsiau lefel uchel i annog y cadwyni mwy ymgysylltiedig i wneud mwy. Y nod strategol ddylai fod symud tuag at fesurau

canlyniadau y cytunwyd arnynt ac adrodd blynyddol o ddangosyddion allweddol ar gyfer pob cadwyn archfarchnad fawr.

- **Blaenoriaeth n (2) Defnyddio caffael cyhoeddus yn anuniongyrchol ac yn strategol ar alw cyfradd fawr i gael dosbarthwyr gwasanaeth bwyd Cymru i stocio mwy o linellau cynnyrch o Gymru.**

Yma, ymddygiadau awdurdodau lleol a byrddau iechyd sy'n allweddol i ddatgloi'r ail gyfle mawr ar yr ochr alw. Mae eu caffael yn swyddogaeth nad oes ganddi adnoddau digonol ac sydd wedi cael ei beirniadu yn briodol am ei phwyslais diofyn ar gost leiaf yn hytrach na gwerth cymdeithasol. Ond, mae polisi generig o leoleiddio cyflenwad yn aml neu fel rheol ddim yn ffordd effeithiol o ysgogi newid. Yn hytrach, mae angen i aelodau byrddau gwasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i ddadansoddi systemau dibyniaeth allweddol (fel bwyd, gofal ac adeiladu) a dod o hyd i ffyrdd penodol o ddefnyddio caffael cyhoeddus yn wahanol ac yn strategol i ysgogi newid ym mhob system. Ym maes bwyd, eu cyfle mawr yw cydgrynhoi rhywfaint o alw trwy gontractau cyhoeddus gyda dosbarthwyr gwasanaeth bwyd er mwyn rhoi neilltuo llai o bwys i brisiau a mwy i stoc BBaChau o Gymru yn rhan o 'werth cymdeithasol'. Nid yw hyn yn golygu gadael caffael cyhoeddus "oddi ar y bachyn" ond yn hytrach dechrau gofyn sut gallwn ei ddefnyddio mewn ffyrdd mwy effeithiol, perthnasol i'r system, gwahaniaethol.

**<u>Blaenoriaeth (3)</u> Cynnal a chadarnhau trefniadau cymorth seilwaith caled a meddal ar gyfer BBaChau bwyd Cymru.**

Mae'r cam gweithredu hwn yn gofyn am gydgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i gyfuno adnoddau. Mae'r blaenoriaethau yn eglur. Cyflwyno cymorth grant i ehangu tair canolfan arloesedd bwyd Cymru sy'n ei gwneud yn haws i ficrofusnesau bontio i raddfa BBaCh. Cydnabod cyfyngiadau'r Banc Datblygu Cymru presennol a benthyca banciau stryd fawr yn y sector hwn; a rhoi cyllid gwladwriaethol ar waith i adeiladu mwy o safleoedd â gwasanaeth a pharciau bwyd. Yma, gall BBaChau ganolbwyntio ar eu busnes gweithredu gydag adeiladau rhent ac offer ar les ac felly ochrgamu'r terfyn ar gyllid sydd ei angen ar gyfer ehangu a bennir gan fenthyciadau banc diogel. Gallai'r parciau hyn hefyd chwarae rhan anuniongyrchol bwysig o ran helpu i gael gafael ar gyflogeion a gwasanaethau medrus a'i gwneud yn haws i ficrogwmnïau ag uchelgais i dyfu'n BBaChau galluog.

- Gyda'i gilydd, byddai'r camau blaenoriaeth hyn yn achosi newid i arfer a fydd yn digwydd dim ond os daw rhanddeiliaid cyhoeddus a phreifat at ei gilydd i greu cynghrair ar gyfer newid sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a ddylai gynnwys proseswyr a dosbarthwyr bwyd presennol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i gyd yn ganolbwyntio ar y camau sy'n angenrheidiol yng ngwahanol ranbarthau Cymru. Mae hefyd, wedyn, angen mwy o ymchwil gweithredol a thrafodaethau gwleidyddol i hybu stoc leol ym maes dosbarthu gwasanaeth bwyd a'r archfarchnadoedd. Heb gamau o'r math hwn, mwy o'r un fath yw'r canlyniad tebygol: dim twf parhaus i stoc BBaChau,

ynghyd â chynnydd i nifer y microgwmnïau, nad yw llawer ohonynt yn gallu cynnig cyflogau ac amodau priodol a byth yn tyfu i fod yn BBaChau. Mae Cymru yn haeddu gwell.

## Ymchwil gweithredol ar y system fwyd o safbwynt economi sylfaenol

Mae gwaith dadansoddi'r economi sylfaenol wedi amlygu problem genedlaethol Cymru o ganol coll a sector BBaChau gwan a achosir gan giliad cyflogwyr preifat mwy a lluosogiad microgwmnïau dros yr 20 mlynedd diwethaf yng Nghymru. Mae hyn yn esbonio'r dymuniad (a'r amcan realistig) o gael mwy o gwmnïau BBaCh ym mhob gweithgaredd. Mae prosesu bwyd yn lle synhwyrol i gychwyn gan mai prosesu bwyd, yn ôl llawer o fesurau, yw'r sector gweithgynhyrchu mwyaf ledled y DU yn ei chyfanrwydd, yn cyflogi mwy na 400,000. Mae cyflogaeth dosbarthu bwyd yn llawer mwy ac yn ddibynnol ar rwydwaith o ganghennau lleol a reolir yn nodweddiadol gan gadwyni cenedlaethol o archfarchnadoedd a dosbarthwyr gwasanaeth bwyd.

Mae ein pwyslais penodol yn yr adroddiad hwn ar gwmnïau BBaCh wedi'u gwreiddio yng Nghymru ym maes prosesu a dosbarthu bwyd yr ydym yn eu diffinio yn yr adroddiad hwn fel rhai sydd mewn perchnogaeth annibynnol ac sydd â chyfran uchel o asedau yng Nghymru. Mae'r rhain yn is-set o'r grŵp mwy o gwmnïau canolig eu maint yng Nghymru sydd hefyd yn cynnwys is-gwmnïau cwmnïau rhestredig cyhoeddus a chronfeydd buddsoddi. Mae cwmnïau wedi'u gwreiddio yn arbennig o werthfawr oherwydd bod ganddynt set lawn o alluoedd cynhyrchiol, marchnad ac ariannol, ac yn aml mae gan berchnogion/rheolwyr ymlyniad cryf â'r lleoliad. Mewn cyferbyniad, mae canghennau yn safleoedd cynhyrchu neu'n ganolfannau dosbarthu yn nodweddiadol, a all ddod yn wystlon mewn prosesau ehangach o ailstrwythuro corfforaethol.

Ceir grŵp bach o broseswyr a dosbarthwyr bwyd BBaCh sydd mewn perchnogaeth yng Nghymru, fel Puffin Produce, Hufenfa De Arfon, Gwasanaeth Bwyd Harlech a Bwydydd Castell Howell, sydd wedi llwyddo i ehangu i £30-£150 miliwn o drosiant ac y mae pob un ohonynt yn cyflogi mwy na 100 o weithwyr. Fodd bynnag, ceir cytundeb cyffredinol bod y grŵp hwn o gwmnïau yn rhy fach ac y bydd cynyddu'r nifer yn dibynnu ar dyfu BBaChau wedi'u gwreiddio yng Nghymru yn hytrach na mewnfuddsoddiad, y gellir ei gyfeirio at brynu cwmnïau yng Nghymru cymaint â sefydlu gweithfeydd cangen newydd.

Felly mae prosiect ymchwil gweithredol tri mis lle mae Foundational Economy Research Ltd wedi ceisio, yn gyntaf, deall cwmnïau prosesu bwyd BBaCh o safbwynt sylfaenol ac yn ail, nodi beth arall y gallai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ei wneud i sicrhau a chynyddu nifer y cwmnïau BBaCh ym maes prosesu a dosbarthu bwyd. Mae dull yr economi sylfaenol yn neilltuol ac yn wahanol mewn dwy ffordd i ddadansoddiadau blaenorol, o'r safbwynt ei fod yn canolbwyntio gwaith dadansoddi a rhagnodi ar faint a siâp cyffredinol system fwyd Cymru a modelau busnes cwmnïau prosesu a dosbarthu bwyd Cymru.

Mae'r economi sylfaenol yn y rhan o'r economi sy'n cynhyrchu nwyddau a gwasanaethau hanfodol beunyddiol. Yn ogystal â bwyd a thai mae'n cynnwys gwasanaethau rhagluniaethol fel iechyd, addysg a gofal yn ogystal â'r cyfleustodau pibell a chebl hanfodol. Mae'r systemau

dibyniaeth hyn wedi'u trefnu yn wahanol yn systemau o rwydweithiau a changhennau o dan wahanol fathau o berchnogaeth ac yn ymdrin â nodweddion gweithgarwch amrywiol. Mae hyn yn golygu na ellir cael un polisi economi sylfaenol generig sy'n addas i bawb ac mae'n rhaid i ymyriadau polisi fod yn gysylltiedig â nodweddion amrywiol gwahanol systemau.

Beth mae angen i ni ei wybod am nodweddion system fwyd Cymru? Yn gyntaf oll, mae'n rhaid i ni ddeall y system o'r pridd i'r plât fel cyfres ryng-gysylltiedig o lifau ffisegol ac ariannol sy'n arwain o gynhyrchwyr trwy broseswyr a dosbarthwyr i ddefnyddwyr terfynol. Ym maes bwyd, fel y byddwn yn gweld, mae hinsawdd a thopograffi yn llywio arbenigedd cynhyrchwyr Cymru mewn cig a bwyd llaeth. Yn debyg i lawer o bethau eraill yn y 2020au, mae system fwyd Cymru yn system fwyd cadwyn hir felly, sy'n ddibynnol iawn ar fewnforion ac allforion cyfradd fawr fel nad Clawdd Offa yw terfyn ei ffiniau.

Yr ail ystyriaeth berthnasol yw'r model busnes lefel cwmni neu, yn fwy manwl gywir yn yr achos hwn, y rhyngweithio rhwng modelau busnes lefel cwmni ar hyd y gadwyn mewn system fwyd o gysylltiadau trafodiadol. Fel y byddwn yn gweld, mae elw proseswyr BBaCh wedi'u cyfyngu gan berthynas rym andwyol gyda chyfryngwyr yn y cadwyni archfarchnadoedd a dosbarthu gwasanaeth bwyd. Ysgogir y system gan gystadleuaeth brisiau ddwys yn y marchnadoedd cynnyrch terfynol sy'n gwasanaethu aelwydydd ac yna'n cael eu strwythuro gan rym y cyfryngwyr corfforaethol mawr.

Mae'r cyd-destun system fwyd a model busnes hwn yn wybodaeth gefndirol sylfaenol i BBaChau ym maes prosesu a dosbarthu bwyd; ond nid yw wedi cyrraedd maes llunio polisi cyhoeddus tuag at y system fwyd. Mae hyn yn rhannol oherwydd nad yw Llywodraeth Cymru wedi ei threfnu i ddefnyddio ystadegau swyddogol neu ddata mawr mewn ffordd systematig. Er enghraifft, nid oes unrhyw gofrestrfa ganolog o ba adrannau neu dimau sy'n tanysgrifio i ba gronfa ddata; na ffordd o sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf o'r cronfeydd data hyn ar gael yn rhwydd ar draws adrannau. Yn y dyfodol, mae gwell mynediad at ddata a gwell defnydd ohonynt yn elfen hollbwysig o ran datblygu capasiti i weithredu.

Nod yr adroddiad hwn yw crynhoi a chyflwyno'r dystiolaeth yn systematig a chynnig cyfres o flaenoriaethau gweithredu sy'n berthnasol i lifau system fwyd, lleddfu cyfyngiadau model busnes a thrwy hynny creu amodau mwy ffafriol ar gyfer twf BBaChau.

## Ffynonellau a dulliau

- Cyflenwyd perchnogion a rheolwyr BBaChau, cyrff anllywodraethol, a swyddogion awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru gennym. Ein nod oedd gosod eu dealltwriaeth a'u safbwyntiau yng nghyd-destun dadansoddiad arloesol o system fwyd Cymru a manylion ariannol cwmnïau BBaCh a allai ddiffinio posibiliadau a therfynau polisïau cyhoeddus.

- Roedd ein hymchwil pen desg yn cynnwys (a) comisiynu rhediad arbennig o ddata cyfres amser gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer BBaChau a microsefydliadau yn sector prosesu bwyd a diod Cymru ar gyfer y cyfnod 2010 i 2020; (b) defnyddio cronfa ddata cyflenwyr Atamis i gael gafael ar wybodaeth am wariant bwyd caffael cyhoeddus Llywodraeth Cymru gan gwmnïau lleol i Gymru a'r tu allan i Gymru yn ôl cod post; ac (c)

cyflawni ein dadansoddiad ein hunain o fanylion ariannol sampl o 29 o gwmnïau canolig eu maint ym maes prosesu a dosbarthu bwyd.

# Dadansoddiad


1. Cyd-destun BBaChau Cymru
2. Siomedigaethau polisi cymorth busnes
3. System fwyd Cymru
4. Mae prosesu bwyd yn fusnes anodd

# 1. Cyd-destun BBaChau Cymru

Mae dadleuon yr adroddiad hwn ynghylch sut i gynyddu nifer y BBaChau bwyd a diod yn seiliedig ar y gosodiad bod dyfodol cyflogaeth sector preifat â chyflogau addas yng Nghymru yn dibynnu ar gynyddu nifer y cwmnïau BBaCh galluog sydd wedi'u gwreiddio. Mae BBaChau yn bwysig oherwydd yn yr un modd â rhanbarthau eraill o'r DU sydd wedi'u dad-ddiwydiannu, mae cyflogwyr cwmnïau preifat mawr yn cilio yn barhaus yn bennaf ac mae'r rhan fwyaf o'r twf cyflogaeth wedi bod mewn microgwmnïau, sydd â chapasiti cyfyngedig i greu cyflogaeth sy'n talu'n dda.

Mae'r tueddiadau hanesyddol parhaus yn eglur, fel y crynhoir yn Arddangosyn 1 ac a gyflwynir yn Atodiad 1. Y prif newidiadau i ddosbarthiad cyflogaeth breifat Cymru rhwng 2003 a 2019 oedd dirywiad i'r gyfran o gyflogaeth cwmnïau mawr, a ostyngodd o 42% i 36% rhwng 2003 a 2019, tra bod cynnydd a oedd yn cyfateb yn fras i nifer y microgwmnïau o 31% i 35% o gyflogaeth. Ni wnaeth cwmnïau BBaCh a oedd yn cyflogi 10 i 250 ddim mwy na chynnal eu cyfran o gyflogaeth.

**Arddangosyn 1**: Strwythur busnesau preifat Cymru: nifer y mentrau a chyfran o gyflogaeth a throsiant yn ôl band maint yn 2019[2]




| | Micro (0 - 9) | Bach (10 - 49) | Canolig (50 - 249) | Mawr (250 +) |
|---|---|---|---|---|
| Nifer y Mentrau | 253,640 | 9,485 | 2,215 | 1,705 |
| Cyfran o Gyflogaeth (%) | 34.9% | 15.2% | 12.4% | 37.6% |
| Cyfran o Drosiant (%) | 13.0% | 11.1% | 13.7% | 62.1% |

[2] Ffynhonnell: 'Strwythur busnesau yng Nghymru yn ôl band maint a mesur', StatsCymru. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/latestbusinessstructureinwales-by-sizeband-measure
Sylwer: Mae'r dosbarthiad o gwmnïau yn ôl niferoedd a gyflogir yn syml ar gyfer microgwmnïau, cwmnïau bach a chwmnïau canolig y mae'n debygol iawn bod ganddynt un sefydliad neu ychydig o sefydliadau yn y rhanbarth. Ond mae'n fwy cymhleth yn achos cwmnïau mawr aml-safle. Yn y gyfres hon, mae 'mawr' yn golygu cwmnïau sy'n cyflogi mwy na 250 o weithwyr ar bob safle y tu mewn i Gymru a'r tu allan. Efallai y bydd y cwmnïau hyn yn cyflogi llai na 250 yn eu sefydliadau cangen yng Nghymru.

Y canlyniad yw dosbarthiad dymbel o gyflogaeth sector preifat Cymru yn ôl maint cwmni. Yn 2019, roedd 250,000 o ficrogwmnïau a'r 1,700 o gwmnïau mawr i gyd yn gyfrifol am fwy nag un rhan o dair o gyflogaeth Cymru. Roedd cwmnïau bach a chanolig yn gyfrifol am chwarter arall o gyflogaeth: roedd 9,500 o gwmnïau bach yn y categori 10-49 o gyflogeion yn gyfrifol am 15% o gyflogaeth a 2,200 o gwmnïau yn y categori 50 -249 o gyflogeion yn gyfrifol am tua 12% o gyflogaeth.

Mae cyflogaeth breifat Cymru yn cael ei symud i'r sector microfusnesau lle mae'r fenter gyfartalog yn cyflogi 1.6 o bobl yn unig ac felly nid yw'n gwmni cymaint â gweithrediad person busnes bach â chynorthwywyr. Mae'r microgwmni nodweddiadol yn weithrediad â galluoedd ac uchelgais cyfyngedig lle mae trosiant gwerthiannau isel yn cyfyngu ei allu i greu bywoliaeth addas i'r pennaeth a'r cynorthwywyr. Mae microgwmnïau yn gyfrifol am 35% o holl gyflogaeth breifat Cymru ond dim ond 14% o drosiant gwerthiannau.

Mae perfformiad cadarn y sector cwmnïau bach a chanolig eu maint, sy'n gyfrifol am 27.6% o gyflogaeth breifat a 24.7% o drosiant preifat, yn cynnig sylfaen y gallwn adeiladu arni. Y cwestiwn wedyn yw sut i ddefnyddio polisi i greu amodau ochr galw a chyflenwad newydd i alluogi rhai microgwmnïau i droi'n BBaChau ac i fwy o BBaChau wedi'u gwreiddio dyfu.

Mae cynyddu nifer y microgwmnïau bach iawn yng Nghymru yn cael budd cyfyngedig ar y cyfan i allu, cydnerthedd a pherfformiad cwmnïau oni bai fod nifer sylweddol o'r rhain yn tyfu i fod yn BBaChau galluog ac ariannol gynaliadwy. Ac, fel y dadleuwyd yn ein hadroddiad i Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn 2015, creu a chynnal cwmnïau wedi'u gwreiddio yw'r flaenoriaeth oherwydd mae tyfu BBaChau galluog dim ond iddynt gael eu gwerthu ymlaen i gronfeydd neu brynwyr corfforaethol rhyngwladol yn cyfyngu'r budd, gan fod swyddogaethau yn cael eu tynnu allan ac mae'r cwmni yn aml yn troi'n gangen gan golli galluoedd a chysylltiadau lleol.

## <u>Goblygiadau polisi:</u>

- Mae tyfu'r canol coll yn benbleth polisi: problem gymhleth sy'n anodd ei datrys ond un sy'n agored i ddadansoddiad ac ateb os gellir cytuno ar ddiffiniad ac atebion o fewn Llywodraeth Cymru a thu hwnt.

- Y man cychwyn ar gyfer ein dadansoddiad yw'r dystiolaeth yn yr adran nesaf ar y ffordd nad yw polisïau cymorth busnes presennol Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r stoc o BBaChau bwyd a diod yn sylweddol.

- Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio wedyn ar (a) y cyfraddau yn y system fwyd a (b) y problemau model busnes sy'n wynebu BBaChau ym maes prosesu a dosbarthu bwyd oherwydd mae'r rhain gyda'i gilydd yn diffinio'r posibiliadau a'r terfynau i'r stoc bresennol o gwmnïau. Y ddadl yw mai dim ond ar ôl i ni ddadansoddi'r manylion hyn y gellir nodi polisïau ar gyfer pontio microgwmnïau a thwf BBaChau.

## 2. Canlyniadau siomedig: nid yw ymdrech bolisi â phwyslais yng Nghymru o ran cymorth busnes yn cynyddu'r stoc o BBaChau

Y man cychwyn yw bod gan isadran bwyd a diod Llywodraeth Cymru bolisïau cymorth busnes gweithredol, â phwyslais a deallus. Fodd bynnag, nid oes gan Gymru stoc gynyddol o fentrau BBaCh wedi'u gwreiddio, er y bu cynnydd sylweddol i nifer y microgwmnïau nad ydynt yn tyfu ac yn troi'n BBaChau ar y cyfan. Mae'r pwyntiau allweddol hyn am y stoc o gwmnïau yn dod i'r amlwg yn gryf o dystiolaeth newydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol a grynhoir isod ac a gyflwynir yn Atodiad 2.

### *Mae datblygiad busnesau a marchnad Cymru yn cynnig system cyngor a chymorth meddal o'r radd flaenaf i broseswyr bwyd*

Mae cyngor busnes bwyd a diod Llywodraeth Cymru yn gynhwysfawr ac yn manteisio ar amrywiaeth eang o arbenigedd i ddarparu mentora ar lefel cwmni, cyd-gymorth mewn clystyrau arbenigol, mynediad at ddata marchnad masnachol, cyfranogiad mewn ffeiriau masnach a chyrsiau fel bŵt-camp i'r rhai sy'n dymuno gwerthu yn Llundain. Cafodd perthnasedd ac ansawdd y cymorth busnes hwn ei ganmol gan yr holl BBaChau a gyfwelwyd gennym (a nododd yn aml nad oedd y math hwn o gymorth ar gael yn Lloegr).

Mae Cymru hefyd yn elwa o dair canolfan arloesedd bwyd[3] sy'n darparu cymorth technegol, gweithredu a masnachol i gynhyrchwyr sy'n uwchraddio o fwrdd y gegin a/ neu dyfu ac angen ardystiad SALSA a BRC i gyflenwi archfarchnadoedd neu ddosbarthwyr gwasanaeth bwyd. Mae cyllid grant ar gyfer y ganolfan arloesedd yn Horeb wedi cynorthwyo cynnig model sy'n cynnwys mynediad at dechnolegwyr bwyd, cyfnodau treial a chyfleusterau gweithgynhyrchu hyblyg y gellir eu rhentu fesul diwrnod.

### *Ond mae ein tystiolaeth cyfres amser yn dangos bod yr enillion o ran stoc gynyddol o BBaChau mwy yn brin*


Comisiynwyd rhediad Swyddfa Ystadegau Gwladol gennym o ddata TAW a chynllun Talu Wrth Ennill ar fentrau adrodd unigol wedi'u lleoli yng Nghymru, a chaiff y canlyniadau eu crynhoi yn Atodiad 2. Mae'r rhain yn cynnig golwg cyfres amser, dros y cylch o'r isafbwynt yn 2010 i'r uchafbwynt yn 2020, o ran y boblogaeth o fentrau ym maes prosesu bwyd a diod gyda'r mentrau wedi'u grwpio mewn bandiau gan ddefnyddio meini prawf cyflogaeth a throsiant[4].

Mae nifer y microgwmnïau yn cynyddu ond, ar y cyfan, prin yw'r rhai sy'n pontio mewn ffordd gynaliadwy fel bod cynnydd net o BBaChau (Arddangosyn 2). Rhwng 2010 a 2020, microgwmnïau oedd 190 o'r 200 o fentrau ychwanegol; roedd mwy na dwy ran o dair o'r microgwmnïau hyn dros y degawd hwn ym maes diodydd, sydd fwy na thebyg yn adlewyrchu'r cynnydd mawr i nifer y microfragdai. Prin yw'r microgwmnïau sy'n pontio am i

[3] Canolfan Bwyd Cymru yn Horeb, Llandysul; ZERO2FIVE ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd; Canolfan Technoleg Bwyd, Llangefni.
[4] Gweler Atodiad 2 am ddata manwl â disgrifiad naratif.

fyny, a bydd rhai o'r rheini sydd yn gwneud hynny yn disodli cwmnïau eraill sy'n crebachu neu'n ymadael: er enghraifft, mae nifer y mentrau BBaCh bach sy'n cyflogi 10-49 yr un fath yn 2020 ag yn 2010.

**Arddangosyn 2**: Nifer y mentrau gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn ôl bandiau cyflogaeth[5]





Mae nifer y BBaChau canolig eu maint yn cynyddu, ond dim ond rhyw fymryn. Gan ddefnyddio'r meini prawf cyflogaeth, mae nifer y mentrau sy'n cyflogi 50-249 yn cynyddu o 35 i 40, ac mae'r holl gynnydd ym maes diodydd. Mae diodydd hefyd yn ysgogi cynnydd i nifer y mentrau â throsiant rhwng £100,000 ac £1 filiwn, ond mae nifer y mentrau â throsiant o £1-10 miliwn yn gostwng mewn gwirionedd (Arddangosyn 3).

Mae'r sector mentrau mawr yn gronig o wan. Mae nifer y mentrau mwy sy'n cyflogi 250-499 yn sownd ar bump ers degawd (2010-2019) cyn i gynnydd yn 2020 ddyblu'r nifer. Mae hon yn ymddangos fel effaith wthio wrth i dwf symud cwmnïau rhyw fymryn dros y trothwy 250 o gyflogeion: yn arwyddocaol, mae nifer y mentrau â throsiant o fwy na £50 miliwn yn gostwng o bump i ddim.

[5] Ffynhonnell: NOMIS. https://www.nomisweb.co.uk/query/select/getdatasetbytheme.asp?theme=49

**Arddangosyn 3**: Nifer y mentrau gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru yn ôl bandiau trosiant[6]




Rhan o'r esboniad yw er bod rhai cwmnïau BBaCh yn tyfu, mae eraill yn crebachu. Mae'r pwynt hwn yn dod i'r amlwg yn eglur o ddadansoddiad o gyfrifon blynyddol sampl o 29 o gwmnïau canolig eu maint ym maes bwyd a diod[7]. Dros y degawd rhwng 2010 a 2020, cynyddodd pump o gwmnïau yn y sampl hwn eu trosiant 100% neu fwy, a gostyngodd trosiant saith ohonynt. Ar draws pob un o'r 29 cwmni, mae patrwm y twf trosiant yn awgrymu mai dim ond o ryw fymryn y mae cwmnïau yn symud i'r band maint nesaf, yn hytrach na llamu i fyny.

Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â rhai llenyddiaeth academaidd gynharach ar BBaChau sydd wedi canfod yn gyffredinol bod twf yn digwydd mewn camau ac nad yw'n cael ei gynnal ar draws gwahanol gyfnodau amser fel nad oes grŵp o 'gaseliaid' BBaCh sy'n tyfu'n gyflym yn gyson.

## Goblygiadau polisi*:*

- Er gwaethaf ymdrechion gweithgareddau a mentrau cymorth bwyd a diod LlC dros y cynnydd hir diwethaf drwy'r 2010au, nid yw'r stoc gymedrol o gwmnïau canolig eu maint ym maes bwyd yn tyfu yn gryf. Wrth gwrs, mae rhai o'r mentrau hyn yn gymharol ddiweddar ac nid oes amheuaeth nad yw'r effeithiau llawn yn amlwg eto. Mae nifer y microgwmnïau bach yn cynyddu'n yn raddol - sydd fwy na thebyg yn adlewyrchu uchelgeisiau microentrepreneuriaid bwyd a hoffterau defnyddwyr, cymaint â pholisïau yn yr achos hwn – a cheir problem acíwt ynghylch nifer y microgwmnïau sy'n symud i fod yn BBaChau i greu twf net yn y categori hwn.

---

[6] Ffynhonnell: NOMIS. https://www.nomisweb.co.uk/query/select/getdatasetbytheme.asp?theme=49
[7] Gweler Atodiad 4 am ddata manwl â disgrifiad naratif.

- Yr awgrym yw peidio â lleihau neu ailgyfeirio’r cymorth busnes hwn ond integreiddio’r gweithgareddau hyn mewn cyfres ehangach o gamau galluogi sy’n mynd i’r afael â’r ochr alw yn ogystal â’r ochr gyflenwi. I wneud y trosglwyddiad hwn, mae angen i ni egluro’r broblem trwy ddadansoddi (a) system fwyd Cymru a (b) problemau model busnes BBaChau ym maes prosesu bwyd. Bydd hyn yn galluogi cyfres o bolisïau seiliedig ar dystiolaeth i gael ei nodi i wella’r enillion o ymdrech cymorth busnes. Yn benodol, mae angen i’r camau hyn roi sylw i gyfyngiadau ochr alw ar fynediad at y farchnad a chyfyngiadau ariannol yr ochr gyflenwi ar ehangu. Byddai hyn yn cyfiawnhau cynnal cymorth a’i ehangiad wedi’i dargedu,. Er enghraifft, trwy ganolfannau arloesi a fydd angen ffynonellau newydd o gyllid grant dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

# 3. System fwyd Cymru: y ffrâm galed o amgylch cwmnïau prosesu a llunwyr polisi

Os ydym eisiau polisi seiliedig ar dystiolaeth o safbwynt economi sylfaenol, gallwn ddechrau trwy ddadansoddi manylion penodol y system fwyd gan fod systemau dibyniaeth unigol (fel bwyd, gofal neu dai) i gyd wedi'u trefnu yn wahanol. Mae'r fframio penodol i system hwn yn galluogi dadansoddiad i'r llifau rhwng gweithredwyr mawr, sy'n diffinio posibiliadau ymyrraeth polisi ac yn pennu'r ysgogiad o ymyriadau penodol. Mae'r dystiolaeth a grynhoir isod ac a gyflwynir yn Atodiad 3 yn dangos bod system fwyd Cymru yn ddibynnol iawn ar fewnforio ac allforio, a bod gwerth cymedrol caffael bwyd cyhoeddus Cymru yn rhoi ysgogiad uniongyrchol cyfyngedig.

### *Mae arbenigedd cul amaethyddiaeth Cymru yn golygu system fwyd sy'n ddibynnol ar allforio a mewnforio*

Mae cynhyrchwyr fferm Cymru yn arbenigo mewn amrywiaeth gul o gynhyrchion. Cig coch (eidion ac oen) a chynnyrch llaeth sy'n gyfrifol am 80% o refeniw ffermydd Cymru. Caiff yr arbenigedd hwn ei adlewyrchu yng nghyfansoddiad y sector prosesu bwyd, lle - fel y dangosir yn Atodiad 4 - mae'r cwmnïau wedi'u gwreiddio allweddol yn ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â chig a chynnyrch llaeth. Mae'r patrwm cynhyrchu amaethyddol lleol hwn yn rhoi sail fewnbwn gul iawn i broseswyr bwyd Cymru sydd hefyd yn peri problemau amgylcheddol gan fod ffermio sy'n seiliedig ar anifeiliaid cnoi cil yn allyriadau-ddwys hyd yn oed pan fo'n seiliedig ar borfa. Yn yr hirdymor, ceir perygl o 'asedau sownd' i gymunedau ffermio a phroseswyr, heb symudiad sylweddol i gynhyrchion newydd.


Y ganlyneb gyntaf o arbenigedd cul yw dibyniaeth ar allforio, sy'n gwbl angenrheidiol i gynnal incwm cynhyrchwyr fferm Cymru o ystyried y patrwm presennol o allbwn. Mae poblogaeth Cymru o ychydig dros 3 miliwn yn defnyddio 5% yn unig o'r cig coch a gynhyrchir yng Nghymru ac felly mae 95% yn cael ei allforio (Arddangosyn 4)[8]. Dim ond hanner y llaeth a gynhyrchir yng Nghymru sy'n cael ei brosesu yn ddomestig, er bod 90% o laeth a brosesir yng Nghymru yn mynd at gynhyrchu bron i 100,000 tunnell o gaws bob blwyddyn, ac mae 80% neu fwy yn cael ei allforio.[9]

Ail ganlyneb arbenigedd cul yw bod system fwyd Cymru yn dibynnu'n fawr ar fewnforio. Mae hinsawdd a thopograffi yn cyfyngu'r cwmpas i arallgyfeiriad graddfa fawr hynod ddymunol ffermwyr Cymru i feysydd âr a garddwriaeth. Mae defnyddwyr Cymru yn mynnu deiet amrywiol nad yw wedi'i gyfyngu gan addasrwydd tir a natur dymhorol; dyma reswm y ddibyniaeth ar gynnyrch wedi'i fewnforio o ddwyrain Lloegr, de Ewrop a gweddill y byd.

---

[8] https://meatpromotion.wales/en/industry-statistics#:~:text=Exports%20of%20red%20meat%20from,the%20Welsh%20economy%20in%202019.
[9] https://meatpromotion.wales/images/resources/HorizonWelshReport_%28Cym%29.pdf

**Arddangosyn 4**: Cyfran o werthiannau cig coch Cymru wedi'u rhannu yn ôl marchnadoedd domestig ac allforio[10]




Effaith arall arbenigedd cul yw bod rhan bwysig o sector prosesu bwyd Cymru yn troi mewnbynnau crai ac wedi'u lled brosesu yn fwydydd wedi'u prosesu sy'n aml yn cael eu bwyta y tu allan i Gymru (gan gynnwys Hilltop Honey, Deeside Cereals, bariau Halo a Brighter a Village Bakery).

Mae angen ystyried arallgyfeirio system amaethyddiaeth Cymru, gan gynnwys drwy fathau newydd o ffermio, ac ehangu sector prosesu a dosbarthu bwyd Cymru fel heriau rhyng-gysylltiedig, er ei bod yn ymddangos bod trafodaethau ynghylch y ddwy wedi cael eu cynnal ar wahân i raddau helaeth. Mae'r agweddau ategol a'r rhyng-ddibyniaethau rhwng amaethyddiaeth a phrosesu bwyd yn gwneud heriau strwythurol y cyntaf yn ataliad allweddol o'r olaf.


## *Gellir cael mynediad at alw cyfradd fawr drwy'r cyfryngwyr, yr archfarchnadoedd a'r dosbarthwyr gwasanaeth bwyd yn unig*

Mae meintiau sylfaenol yn bwysig yma. Mae data gwariant aelwydydd ar gael gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar sail ranbarthol, felly gallwn weld yn uniongyrchol, er gaethaf incwm is, bod aelwydydd Cymru yn gwario £53.70 yr wythnos yn llai ar fwyd ar gyfartaledd (gan gynnwys diodydd dialcohol) yn ogystal â £31.60 ar wariant bwytai a siopau tecawê. Felly, £3,800 miliwn y flwyddyn yw gwariant aelwydydd Cymru ar fwyd (ac eithrio bwytai a siopau

[10] Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (HCC), https://meatpromotion.wales/images/resources/HorizonWelshReport_%28Cym%29.pdf

tecawê); mae gwariant bwytai a siopau tecawê aelwydydd Cymru yn ychwanegu £2,800 miliwn arall (Arddangosyn 5).

**Arddangosyn 5**: Cyfanswm gwariant aelwyd blynyddol aelwydydd Cymru ar fwyd a diod, mewn bwytai a siopau tecawê, (£m)[11]





Mewn cyferbyniad, mae rhediad a gomisiynwyd ar gronfa ddata Atamis o anfonebau prynu yn dangos cyfanswm cyn Covid o £94.4 miliwn o wariant sector cyhoeddus Cymru ar fwyd ac arlwyo allanol yn 2019. Mae hyn yn cyfateb yn fras i drosiant (nad yw'n cynnwys tanwydd) un hyperfarchnad Tesco[12] fel y siop yng Nghroes Cwrlwys, Caerdydd (Arddangosyn 6). Gan dybio fod gwerthiannau fesul troedfedd sgwâr yn siop Croes Cwrlwys ar gyfartaledd corfforaethol Tesco, yna £93.4 miliwn oedd trosiant yr un siop yn 2019, wedi'i gyfansoddi yn bennaf o fwyd a diod.

Mae caffael bwyd ac arlwyo cyhoeddus Cymru o £94.4 miliwn wedi'i rannu rhwng llawer o gategorïau fel bod y categorïau mwyaf fel cig a chynnyrch llaeth yn gyfrifol yn unigol am ddim mwy na £10-15 miliwn. Mae hyn yn awgrymu, hyd yn oed pe bai pob sefydliad sector cyhoeddus ledled Cymru yn cydgrynhoi eu galw mewn un categori eang fel cynnyrch llaeth, na fyddai eu pryniannau yn ddigon mawr i ddarparu yn uniongyrchol mwy na'r hyn sy'n cyfateb i 15% o drosiant un BBaCh wedi'i wreiddio llwyddiannus yng Nghymru, fel Hufenfa De Arfon sydd â throsiant o fwy na £60 miliwn.

[11] Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, '*Detailed household expenditure by countries and regions: Table A35*', https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/personalandhouseholdfinances/expenditure/datasets/detailedhouseholdexpenditurebycountriesandregionsuktablea35?_gl=1*wq8r9k*_ga*MTc0ODgzMTA4NS4xNjQ0OTIzOTE3*_ga_W804VY6YKS*MTY1NTcxODgzMC4yLjAuMTY1NTcxODgzMC42MA..
StatsCymru, 'Niferoedd aelwydydd yng Nghymru', https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2018-521.pdf
[12] Mae gan Tesco 252 o hyperfarchnadoedd ledled y DU.

**Arddangosyn 6**: Cymhariaeth o drosiant un siop Tesco yng Nghaerdydd yn erbyn gwariant caffael sector cyhoeddus Cymru ar fwyd a diod, 2018-19[13]




Y cyfryngwyr corfforaethol (archfarchnadoedd a dosbarthwyr gwasanaeth bwyd) yw'r porth i gael gafael ar alw cyfradd uchel gan fod manwerthwyr bwyd annibynnol a chyflenwad uniongyrchol bwytai a siopau tecawê yn gyfrifol am gyfanswm llawer llai. Mae o leiaf 85% o wariant aelwydydd ar nwyddau groser gyda chadwyni archfarchnadoedd y DU gyfan sy'n bodloni gofynion poblogaeth Cymru sydd ag incwm cymharol isel, sy'n brin o amser ac yn ddibynnol ar gar. Fel y trafodir yn Adran 4, mae cymryd rhan yn y sianelau hyn yn cyflwyno gofynion ariannol a thechnegol mawr ar weithgynhyrchwyr bwyd, sy'n rhwystr allweddol i'w oresgyn i'r mwyafrif o BBaChau. Mae dosbarthwyr gwasanaeth bwyd yr un mor drech o ran gwasanaethu bwytai ac arlwyo masnachol, er bod y sefyllfa yma yn wahanol, yn ddiddorol, oherwydd bod gan Gymru ddau gwmni rhanbarthol sy'n eiddo teuluol ac wedi'u gwreiddio yng Nghymru (Castell Howell a Harlech) a throsiant blynyddol cyfunol o £170 miliwn.

### *Mae polisi sylfaenol Cymru wedi methu â rhoi sylw i gyfyngiadau a thueddiadau strwythurol system gyfan yn system fwyd Cymru*

Yn rhan o'i hagenda economi sylfaenol, bu gan Weinyddiaeth yr Economi ddiddordeb mewn cyflenwad lleol, gan fynd i'r afael â diwygio caffael cyhoeddus ar lefel bwrdd gwasanaethau cyhoeddus gyda'r amcan generig o symud contractau sector cyhoeddus i gwmnïau a

[13] Ffynonellau: Adroddiad blynyddol Tesco 2020, https://www.tescoplc.com/media/755761/tes006_ar2020_web_updated_200505.pdf and Wales Online, https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/triple-sized-store-set-create-300-2182492
Nodiadau: Mae trosiant tanwydd wedi'i eithrio. Mae'r siop Tesco Extra fwyaf yng Nghroes Cwrlwys yng Nghaerdydd, sy'n 105,000 troedfedd sgwâr. Ceir dwy siop 100,000 troedfedd sgwâr yn Rhodfa'r Gorllewin yng Nghaerdydd ac yn Nhonysguboriau hefyd.

phencadlys yng Nghymru. Nid yw wedi canolbwyntio hyd yma ar yr hyn y gallai caffael cyhoeddus ei wneud yn wahanol, fesul system, pan fo gwariant cyhoeddus, er enghraifft, yn fawr ac yn bennaf yn y system ofal ac yn gymharol fach ym maes bwyd a diod.

Mae Cronfa Her yr Economi Sylfaenol hefyd wedi cefnogi arbrofion o ran cynhyrchu a dosbarthu bwyd amgen. Er y gall hyn gyfrannu mân arloesiadau cymdeithasol, nid yw'n ymgysylltu â'r grŵp newidiol o fanwerthwyr cadwyn a fydd yn parhau i fod yn drech yn y farchnad nwyddau groser cyfradd fawr yng Nghymru oherwydd bod ganddynt gynnig gwerth am arian sy'n cael ei ddatblygu yn alluog ac yn barhaus.

Yn fwyaf diweddar, mae gennym ddyfodiad Aldi a Lidl fel mathau newydd o ostyngwyr caled â basged sydd 20% yn rhatach[14] a fformat siopau llai sy'n cyd-fynd yn dda â Chymru. Y tu ôl i'r gostyngwyr caled, mae'n bosibl y daw newydd ddyfodiaid fel Amazon, gan ehangu'r farchnad ar gyfer danfoniadau cartref o siopa wythnosol ac eitemau cyfleustod.

Nid yw maint a chyflymder y newidiadau diweddaraf ym maes dosbarthu manwerthu wedi cael eu hystyried yn llawn gan lunwyr polisi eto. Mae gan gadwyn Aldi 50 o siopau yng Nghymru ar hyn o bryd ac mae'n bwriadu agor 36 arall, y cwbl yn unol â'i fformat 20,000 troedfedd sgwâr safonol. Mae gan bob un o siopau Aldi yn y DU drosiant blynyddol cyfartalog o tua £15 miliwn ac, ar y sail honno, mae gweithrediad presennol Aldi yng Nghymru yn sicrhau gwariant aelwydydd Cymru o tua £750 miliwn ac yn bwriadu cynyddu hynny yn sylweddol[15].

## <u>Goblygiadau polisi</u>*:*

- Mae gan gyrchu lleol (â chadwyni byr o'r pridd i'r plât) berthnasedd cyffredinol cyfyngedig i system fwyd Cymru sy'n llawn mewnforion ac allforion cadwyn hir o safbwynt gwerth a chyfradd, ac mae cydbwysedd y ddau lif trawsffiniol yn bwysicach nag awtarchiaeth trwy sicrhau cyn lleied o fewnforion â phosibl. Mae'r cwestiwn o'r hyn y mae 'lleol' yn ei olygu hefyd yn berthnasol ac mae angen ei archwilio, nid leiaf o ran cynaliadwyedd lle nad yw lleol o reidrwydd yn golygu gwell.[16]

- Mae stoc leol yn bwysig mewn ffyrdd amrywiol o ran amcanion economaidd a diwylliannol-gymdeithasol. Mae'n berthnasol i rai BBaChau gan ei fod yn wahaniaethydd pwynt gwerthu ar y llinellau y maent yn eu cyflenwi i archfarchnadoedd, manwerthwyr eraill a dosbarthwyr gwasanaeth bwyd. Mae bwyd a gynhyrchir yn lleol hefyd yn berthnasol i'r cynnig mewn rhai rhannau o'r sector lletygarwch ac mae sicrhau bod amrywiaeth o gynhyrchion ar gael gan gwmnïau achrededig yn bwysig o ran cefnogi twf cynigion twristiaeth a lletygarwch unigryw. Yn yr un modd, ni ddylid trin cwmnïau sy'n

---

[14] Ym mis Mehefin 2019, cymharodd The Grocer fasged Aldi 33 eitem gyda'r un fasged o Tesco, Morrisons a Sainsburys.

[15] Yn 2019, roedd gan gadwyn Aldi £12.3 biliwn o drosiant yn y DU ac yn rhedeg tua 800 o siopau. https://retailanalysis.igd.com/news/news-article/t/aldi-uk-fy19-8-sales-growth/i/26792

[16] Am archwiliad o'r materion pwysig hyn, gweler Goodwin-Hawkins, B. (2020) '*How local is local*', ar gael yn: https://rural-urban.eu/publications/how-local-local-rethinking-local-food-and-public-plate-monmouthshire-wales

prosesu deunyddiau a fewnforiwyd fel rhai ail ddosbarth oherwydd gall y sector prosesu dyfu trwy gynhyrchu llinellau newydd y mae manwerthwyr yn awyddus i'w stocio.

- Mae gwerth ychwanegol lleol yn hollbwysig oherwydd, os mai'r nod yw cefnogi BBaChau prosesu bwyd, mae angen i gwmnïau yng Nghymru sicrhau cyfran fwy o'r gwerth prosesu ychwanegol mewn cynhyrchion cyfradd fawr penodol. A bydd hyn yn cynnwys cymysgeddau newidiol o ddisodli mewnforion a marchnata allforion yn unol â'r llinell gynnyrch. Er enghraifft, caiff tri chwarter y tatws a gynhyrchir yng Nghymru eu bagio yn ffres a dim ond 20% sy'n cael eu prosesu (7% fel sglodion) o'i gymharu â 40% (12% fel sglodion) ym Mhrydain Fawr[17]. Y cwestiwn gwerth ychwanegol yma yw pam ddylai sglodion wedi'u rhewi Cymru ddod o Wlad Belg ac, os byddwn yn eu gwneud yng Nghymru, sut gallwn ni eu gwerthu yn Lloegr hefyd? Yn fwy cyffredinol, efallai y bydd gwerth ychwanegol sylweddol o ran ffrwythau a llysiau ffres yn sgil prosesu mwy cyfyngedig, a didoli a phacio yn bennaf.

- Ym maes dosbarthu gwasanaeth bwyd, mae Castell Howell a Harlech yn cystadlu am archebion sector cyhoeddus Cymru, er bod eu twf hefyd yn dibynnu ar ehangu cyrhaeddiad eu rhwydweithiau dosbarthu sydd wedi'u canolbwyntio yng Nghymru i werthu mwy o gynnyrch i farchnadoedd Lloegr. Mae gan eu marchnad gyfagos yn Lloegr botensial llawer mwy pan nad yw poblogaeth Cymru fawr mwy na 3 miliwn ac mae 4.9 miliwn o boblogaeth Lloegr yn byw o fewn 25 milltir i'r ffin. Ceir marchnad i gynnyrch o Gymru yng ngogledd-orllewin Lloegr a gorllewin canolbarth Lloegr, er bod lefel uchel o gystadleuaeth â chwmnïau gwasanaeth bwyd y DU gyfan, fel Bidfood a Brakes.[18]

- O ran caffael cyhoeddus, mae'n bwysig cymryd golwg realistig a strategol. Mae gwariant caffael cyhoeddus yn rhy fach i gefnogi llawer o BBaChau yn uniongyrchol ar raddfa fawr trwy newid i gwmnïau a phencadlys yng Nghymru neu godau post lleol ar eu hanfonebau. Y cyfle yw defnyddio caffael mewn ffordd fwy arloesol ac anuniongyrchol mewn cyfres fwy o bolisïau ar gyfer tyfu gwerth, cyfradd ac amrywiaeth cynhyrchion, yn ogystal â bodloni amcanion diwylliannol-gymdeithasol pwysig fel ansawdd y bwyd ar y plât cyhoeddus.

---

[17] https://meatpromotion.wales/images/resources/HorizonWelshReport_%28Cym%29.pdf

[18] G. Ifan a G. E. Poole (2018) *Y Sylfaen Drethu Gymreig*, Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd.

## 4. Mae prosesu bwyd yn fusnes anodd: yn gofyn am lawer o alluoedd ac yn cynhyrchu ychydig o arian parod

Chwiliodd cyfalafwr menter am BBaChau i'w prynu yn ddiweddar a defnyddiodd feini prawf ariannol i lunio rhestr o 200 o gwmnïau targed yng Nghymru a fyddai'n cynnig enillion o'i fuddsoddiad ar sail perfformiad yn y gorffennol a'r presennol: mae'n drawiadol mai dim ond un BBaCh prosesu bwyd lwyddodd i gael ei gynnwys ar y rhestr. Mae ein dadansoddiad model busnes yn esbonio sut a pham mae hwn yn fusnes lle mae'n anodd gwneud arian mewn ffordd barhaus. Mae'r dadansoddiad yn seiliedig ar sampl o 29 o wledydd, a chyflwynir y canlyniadau yn Atodiad 4 ac fe'u crynhoir isod.

### *Wedi'u gwasgu rhwng costau mewnbwn a phrisiau allbwn: mae maint elw arian parod o 6% yn dda*

Mae'r dadansoddiad o fanylion ariannol yn seiliedig ar sampl o 29 o gwmnïau canolig eu maint sy'n gweithredu yng Nghymru, gan gynnwys dau ym maes dosbarthu a'r gweddill ym maes prosesu bwyd a diod. Maent wedi cael rhywfaint o lwyddiant oherwydd mae gan bob un o'r 29 cwmni drosiant o fwy nag £20 miliwn. Mae mwy nag un rhan o dair (11) wedi'u gwreiddio yng Nghymru o'r safbwynt bod ganddynt eu holl asedau yng Nghymru ac mae pedwar arall yn gwmnïau wedi'u lled-wreiddio sy'n eiddo i deuluoedd ag asedau wedi'u rhannu rhwng Cymru a Lloegr; mae wyth yn is-gwmnïau i gorfforaethau amlwladol a reolir gan deuluoedd.

Ar yr ochr fewnbwn, ceir terfyn seiliedig ar weithgareddau ar gynhyrchu arian parod ar ffurf cymarebau prynu/ gwerthu uchel, a chostau llafur gweithredu sylweddol sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o weddill y refeniw. I'r 27 o gwmnïau prosesu yn y sampl, mae prynu deunyddiau crai ac wedi'u lled-brosesu yn cyfateb i 79% o refeniw gwerthiannau. Costau llafur yw 14% pellach sy'n gadael swm arian parod gweddilliol bach o 7% (Arddangosyn 7). Dyma'r mathau o gymarebau y byddem yn eu disgwyl ac yn eu canfod yn y ddau gwmni dosbarthu bwyd ac, yn rhyfeddol, mae'r cymarebau fwy neu lai yr un fath ym maes prosesu bwyd.


Ar yr ochr allbwn, ceir terfyn seiliedig ar weithgareddau sylweddol arall ar gynhyrchu arian parod ar ffurf perthynas rym andwyol ag archfarchnadoedd a dosbarthwyr gwasanaeth bwyd llawer mwy. Mae'r prynwyr hyn yn cystadlu mewn marchnadoedd sy'n sensitif i brisiau ac angen cyflenwadau cyfradd fawr o ansawdd gyson ag ardystiad SALSA a BRC addas a fydd yn cael eu gwerthu ymlaen am elw isel. Y broblem y mae BBaChau prosesu yn ei hwynebu yw eu bod yn gwerthu i archfarchnadoedd neu ddosbarthwyr gwasanaeth bwyd sydd â chymarebau gweithredu tebyg iawn ond llawer mwy o rym, ac mae dadrestru yn fygythiad parhaus.

Er bod sefydlu Dyfarnwr y Cod Cyflenwi Nwyddau Groser wedi gwella'r achosion gwaethaf o gam-drin grym y prynwr gan archfarchnadoedd, ceir nodweddion strwythurol o gadwyni cyflenwi a modelau busnes archfarchnadoedd sy'n dal i fod yn anfanteisiol yn anfwriadol i broseswyr BBaCh, gan ei wneud yn anodd iddynt ymuno â'r sianel hwn ac aros ynddo. Mae hyn yn cynnwys y model canolfan ddosbarthu ganolog gyda phrosesau danfon mewn union bryd, gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd logisteg mawr sy'n troi'n broses isel i gwsmeriaid, ond a all greu heriau cyfradd a logisteg na ellir eu goresgyn i rai cwmnïau bach. Gall y polisïau

telerau credyd, ad-daliadau a dychweliadau nodweddiadol roi straen mawr ar gyfalaf gweithio y mae cwmnïau llai yn cael trafferth ag ef.

Cystadleuaeth prisiau yn y farchnad derfynol yw ysgogwr ymddygiad archfarchnadoedd a dosbarthwyr. Mae hyn yn mabwysiadu ffurf benodol i'r cwmnïau gwasanaeth bwyd yng Nghymru sy'n cystadlu fel gweithredwyr rhanbarthol yn erbyn cadwyni y DU gyfan fel Bidfood. Mae'n hawdd colli cwsmeriaid os na all dosbarthwyr fodloni'r pwynt pris; os yw'r sector cyhoeddus yn dymuno iddynt stocio mwy o linellau o Gymru, yna mae'n rhaid neilltuo llai o bwys i brisiau mewn contractau cyhoeddus a rhoi mwy o bwyslais ar gyrchu o Gymru yn rhan o werth cymdeithasol.

**Arddangosyn 7**: Strwythur pryniannau, cost llafur ac elw arian parod mewn gwerthiannau ar gyfer 27 o broseswyr bwyd a dau o ddosbarthwyr bwyd yng Nghymru[19]




O ran archfarchnadoedd, mae'r problemau yn cael eu gwaethygu gan nad yw'r mwyafrif o gadwyni wedi cyfrannu adnoddau yn gyson at ddatblygu cyflenwyr yng Nghymru a all fodloni eu meini prawf pris, cyfradd ac ansawdd. Yn y gorffennol, mae is-set newidiol o'r prif fanwerthwyr wedi gwneud ymrwymiadau o ran cyrchu lleol yng Nghymru na chawsant eu cynnal yn aml. Mae'r archfarchnadoedd yn ymwybodol ar hyn o bryd bod cwsmeriaid yng Nghymru eisiau stoc leol fel gwahaniaethydd. Mae Tesco wedi adleoli un o'i brynwyr o'i brif swyddfa i siop yng Nghymru, ac mae Morrisons a'r Co-op hefyd wrthi'n gweithio gyda chyflenwyr yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r Co-op yn ymestyn i Gymru yr amrywiaethau a'r hyrwyddiadau o ffynonellau lleol a ddefnyddiwyd yn yr Alban.

[19] Ffynhonnell: Tŷ'r Cwmnïau ar gyfer adroddiadau ariannol blynyddol, blynyddoedd amrywiol.

## *Amodau llwyddiant a methiant cwmnïau: gallu cynhyrchiol, marchnad ac ariannol*

O’n cyfweliadau, mae cwmnïau BBaCh llwyddiannus yn eithriadol o’r safbwynt bod ganddynt gyfuniad o allu cynhyrchiol, marchnad ac ariannol. Mae gallu cynhyrchiol, marchnad ac ariannol cyffredinol mewn BBaCh prosesu bwyd yn golygu: (a) gall cynhyrchu ddarparu cyfradd fawr ag ansawdd cyson yn ddibynadwy; a hefyd (b) crebwyll marchnata i reoli perthynas “rhywbeth am rywbeth” gyda phrynwyr archfarchnadoedd, ar gyfer presenoldeb arbenigol mewn marchnad newidiol fel rheol; ac (c) rheolaeth ariannol dynn trwy fonitro elw ac amrywiadau yn brydlon.

Y broblem yw bod y set alluoedd gyffredinol hon y tu hwnt i’r rhan fwyaf o BBaChau ac yn anodd eu caffael yn ystod camau cynnar ehangu. Mae hyn yn arbennig o acíwt mewn cwmnïau bach sy’n gwneud elw bach ac sydd â throsiant o lai na £5 miliwn; mae’r cwmnïau hyn fel rheol yn dibynnu ar reolwr-berchennog gan na allant fforddio cost cyflog ychwanegol rheolwr proffesiynol. Mae BBaChau bwyd a diod hefyd angen seilwaith allanol o drydan, dŵr a thriniaeth elifiant sy’n peri problemau ar lawer o safleoedd yng Nghymru lle gall fod diffyg pethau sylfaenol fel trydan tri cham hyd yn oed.

Yn nodweddiadol, ceir un entrepreneur brwdfrydig y tu ôl i bob cwmni llwyddiannus, fel yn Radnor Hills, Hufenfa De Arfon, Puffin Produce neu Hilltop Honey. Mae’r entrepreneuriaid hyn yn amrywiol o ran cefndir: mae gan rai yrfaoedd corfforaethol y tu ôl iddynt, mae gan eraill arbenigeddau, ac mae un neu ddau yn gwbl hunanddyrchafedig. Maent i gyd yn cyfuno brwdfrydedd â realaeth: er enghraifft, uwchben trosiant o £10 miliwn, mae angen i gwmni ddatblygu talent leol a chyflogi cymorth arbenigol. Mae’r dewis cywir o rywun allanol fel cyfarwyddwr cyllid neu reolwr cynhyrchu wedyn yn galluogi cynnydd i’r cam nesaf.

Mae’r lefel gyfartalog o allu microgwmnïau a BBaChau yn wahanol iawn ac yn gyffredinol is. Mae Castell Howell yn trefnu contractau allanol gyda phartneriaid prosesu fel Mario’s Ice Cream ond yn gwneud ei lenwadau brechdan, ei basteiod cig a’i ham wedi’i goginio ei hun yn fewnol oherwydd diffyg cyflenwyr lleol sy’n bodloni’r safonau gofynnol. Mae Llywodraeth Cymru yn gallu darparu cyngor a chymorth busnes o ansawdd uchel, ac yn gwneud hynny, ond mae hynny’n gweithio dim ond i gynhyrchu twf pan fo rheolaeth ar waith gyda’r uchelgais a'r galluoedd i wireddu hyn.

## *Mae ymadael yn hawdd*

Mewn busnes lle ceir elw bach ag ychydig o gwsmeriaid grymus, gall pethau fynd o’i le yn rhwydd ac yna mae elw yn diflannu neu mae’r posibilrwydd o ddadrestriad gan archfarchnadoedd ar y gorwel. Un enghraifft ddiweddar yw dŵr potel Princes Gate yn Arberth, lle gwerthodd perchnogion teuluol i Nestle a ychwanegodd y brand at ei bortffolio a oedd eisoes yn cynnwys cwmnïau dŵr Buxton a Pure Life. Roedd Princes Gate wedi ehangu

gyda thrydan tri cham a pheiriant chwythu poteli[20] pan ostyngodd gwerthiannau ac elw, a gostyngwyd buddsoddiad gan y cwmni cyn i'r teulu werthu[21].

Mae corfforaethau mawr yn cysylltu fel mater o drefn â chwmnïau wedi'u gwreiddio llwyddiannus sy'n eiddo i deuluoedd mewn ymgais i ymestyn eu cyrhaeddiad neu atgyfnerthu'r sector gyda chaffaeliadau ategol. Abergavenny Fine Foods â throsiant o £30 miliwn ym maes caws gafr yw'r diweddaraf i dderbyn cynnig o'r math hwn. Yn bryderus iawn, ni allwn weld unrhyw gynllun eglur ar gyfer ymdrin â phroblem olyniaeth sydd ar y gorwel yn un o'r cwmnïau wedi'u gwreiddio mwy yng Nghymru ym maes prosesu a dosbarthu bwyd.

Mae'r cymhelliad preifat i werthu yn gryf gan na fyddai'r rhan fwyaf o deuluoedd yn dymuno dal eu cyfoeth mewn busnes elw isel ansefydlog ac efallai y bydd gan ddarpar olynwyr teuluol ddiffyg diddordeb mewn parhau. Y gost gymdeithasol ac economaidd yw bod cwmni wedi'i wreiddio annibynnol â galluoedd cynhyrchiol, marchnad ac ariannol fel rheol yn cael ei israddio i safle cynhyrchu neu gangen ddosbarthu yn dilyn caffaeliad corfforaethol.

## Y model busnes diofyn

### *(a) dibyniaeth ddarbodus ar enillion a gedwir a dosbarthiad cyfyngedig*

Mae gan y rhan fwyaf o BBaChau bwyd Cymru fodel busnes darbodus yn ariannol o'r safbwynt eu bod yn osgoi dyled, yn gwneud dosbarthiadau cyfyngedig (difidendau) ac yn dibynnu ar enillion a gedwir fel eu prif ffynhonnell o gyllid buddsoddi. Os cymerwn gyfartaledd wedi'i bwysoli ein grŵp o gwmnïau wedi'u gwreiddio yng Nghymru, dosberthir llai nag 20% ar ffurf difidendau neu daliadau llog a neilltuir llawer o'r gweddill i fuddsoddiad mewn asedau diriaethol.

Mae'r ymddygiadau hyn gan gwmnïau wedi'u gwreiddio yn ddealladwy yn eu cyd-destun. Mae'n rhaid i gwmnïau fyw gydag ansicrwydd y farchnad gan fod proseswyr bwyd Cymru yn gwerthu i gwsmeriaid mwy grymus ac mae dosbarthwyr bwyd Cymru yn byw gyda chystadleuwyr llawer mwy. I lawer o gwmnïau, byddai benthyg a throsoledd allanol sylweddol yn ychwanegu risg ariannol annerbyniol wedyn gan fod yn rhaid gwneud ad-daliadau llog a phrifsymiau, hyd yn oed os bydd gwerthiannau wedi gostwng a bod llif arian parod wedi diflannu.

Mae ecwiti preifat a rhiant-gwmnïau CCC is-gwmnïau yn fwy alldynnol fel mater o drefn a byddent yn disgwyl mwy o ran dosbarthiad difidendau neu daliadau llog. Mae'r is-gwmnïau corfforaethau amlwladol yn y sampl yn fwy alldynnol ond yn ddiddorol mae'r wyth is-gwmni canolig eu maint sy'n eiddo i ecwiti preifat a CCCau mewn gwirionedd yn dosbarthu rhyw fymryn yn llai na 18% o arian parod a ddosberthir gan y naw cwmni wedi'u gwreiddio yng

[20] https://www.walesonline.co.uk/business/business-news/19m-investment-narberth-based-princes-gate-2032208
[21] https://www.thegrocer.co.uk/results/princes-gate-water-sales-slump-6-prior-to-nestle-acquisition/570956.article

Nghymru (Atodiad 4). Mae'r elw bach hwn a gweithgarwch ansicrwydd marchnad uchel (yn absenoldeb premiwm brand cryf) yn anodd i weithredwyr alldynnol y mae eu mentrau ym maes prosesu bwyd yn aml yn arwain at ymadael neu ailstrwythuro atafael.

Mae gan leiafrif o BBaChau wedi'u gwreiddio (Abergavenny, Capestone, Puffin a De Arfon) neu ganghennau â rhiant-gwmnïau cronfa neu gorfforaethol (Deeside ac FEI) ddigon o hyder yn y farchnad i fenthyg neu dynnu i lawr adnoddau'r rhiant-gwmni i ehangu o flaen llif arian parod. Ond mewn cwmni sy'n eiddo teuluol mae hyn i'r rhai dewr yn unig gan fod banciau stryd fawr yn darparu benthyciadau yn erbyn sicrwydd asedau, a fydd yn cael eu colli os aiff pethau o'i le.

### *(b) y cyfyngiadau ar fenthyg i fuddsoddi mewn twf cam nesaf*

Yn nodweddiadol, daw cyfle busnes i BBaCh prosesu bwyd ar ffurf contract newydd neu ragolwg realistig sy'n gofyn am ehangu trwy fuddsoddi mewn llinell gynhyrchu newydd ac adeilad newydd efallai; neu dechnoleg newydd i helpu i reoli costau llafur. Mae twf yn dueddol o gymryd ffurf camau eithaf mawr, yn hytrach na chynnydd graddol i drosiant. Mae'n risg mawr adeiladu cyn galw mewn busnes elw bach lle mae tanddefnydd cyson o gapasiti yn arwain at gost drom.

Mae benthyg ar gyfer y cam nesaf wedi'i gyfyngu wedyn gan fwlch cyllid. Mae banciau masnachol yn darparu benthyciadau yn erbyn sicrwydd asedau yn unig ac mae offer ac adeiladau yng Nghymru wedi'u prisio ar werth marchnad, a fydd yn llai na'u cost wreiddiol lle mae gwerthoedd tir ac eiddo yn isel. Mae hyn yn wir ym mhobman yng Nghymru i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr neu Wrecsam. Felly, dywedodd un cwmni wrthym eu bod wedi gwario £14 miliwn yn ystod yr 8 mlynedd flaenorol ar offer a chyfarpar o'r radd flaenaf ond bod y rhain wedi cael eu prisio fel £4.4 miliwn gan fanc stryd fawr ym mis Hydref 2017, a oedd yn fodlon benthyg dim mwy nag 80% o'r gwerth marchnad hwn[22].

Mewn cyfweliadau, dywedodd o leiaf pedwar o BBaChau galluog sy'n tyfu wrthym eu bod wedi dibynnu ar grantiau Llywodraeth Cymru i lenwi'r bwlch cyllid ar dwf cam nesaf. Er enghraifft, rhwng 2012 a 2018, cefnogwyd gwariant cyfalaf Puffin o £24 miliwn gan £10.6 miliwn o grantiau llywodraeth. Nid oedd unrhyw gwmni o'r farn bod Banc Datblygu Cymru yn ffynhonnell gyllid amgen; yn wir, red benthyciadau banciau stryd fawr yn rhatach. Disgrifiwyd ecwiti (o gyfalaf menter neu ecwiti preifat) gan un o'r rhai a gyfwelwyd fel "benthyciad drud" gan y bydd y buddsoddwyr ecwiti hyn eisiau gwerthu'r cwmni o fewn pum mlynedd.

## Goblygiadau polisi:

- Os yw dadansoddiad o'r system fwyd yn datgelu cyfyngiadau strwythurol ar draws y system gyfan, mae ein dadansoddiad model busnes yn ychwanegu cymhlethdodau lefel cwmnïau gan ei fod yn nodi'r anawsterau marchnad lluosog sy'n rhwystro adeiladu a thyfu fel BBaCh.

[22] https://busnes.senedd.cymru/documents/s86331/Puffin%20Produce%20Saesneg%20yn%20unig.pdf

- Yn erbyn y cefndir hwn, nid yw’n syndod na fu gan Gymru lawer mwy na 50 o BBaChau ac is-gwmnïau corfforaethol â’r gallu cynhyrchiol, marchnad ac ariannol i gynnal sefyllfa cyfradd fawr mewn cadwyni cyflenwi cyfryngol. O ddata’r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2020, roedd gan Gymru 50 o fentrau BBaCh yn unig ym maes prosesu bwyd a diod â mwy na 50 o gyflogeion a dim mwy na 35 â throsiant o fwy na £10 miliwn. Yn yr un modd, nid yw’n syndod bod gan Gymru lawer o ficrogwmnïau nad ydynt yn barod neu’n gallu gwneud mwy na gweithredu mewn arbenigeddau bach. Gan ddefnyddio data’r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2020, roedd 190 o’r 495 o fentrau ym maes prosesu bwyd a diod yn gwneud trosiant o lai na £100,000 a bydd llawer o’r rhain yn is na’r trothwy TAW.

- Ar yr un pryd, mae dadansoddiad model busnes yn addysgiadol ac yn adeiladol gan ei fod yn nodi’r pwyntiau anhawster lluosog nad yw polisi LlC yn mynd i’r afael a nhw (neu y gallai fynd i’r afael â nhw yn fwy effeithiol) trwy wahanol ymyriadau ar wahanol bwyntiau ar hyd y gadwyn gyflenwi. Mae’r rhestr yn cynnwys: (a) cael archfarchnadoedd a chymell cyfryngwyr dosbarthwyr gwasanaeth bwyd i gyrchu gan broseswyr yng Nghymru; (b) rhoi sylw i olyniaeth a’r broblem o deuluoedd yn gwerthu yn gynnar; (c) hwyluso twf microgwmnïau i ddisodli’r BBaChau a fydd yn cael eu colli yn anochel; ac (ch) trwsio’r bwlch cyllid a’r cyfyngiadau ar ehangiad sylweddol BBaChau. Os mai dyna’r hyn y mae angen i ni ei wneud, sut i’w wneud yw’r broblem bolisi fawr.

# Blaenoriaethau gweithredu

1. Archfarchnadoedd fel y cyfle cyfradd fwyaf
2. Dosbarthu gwasanaeth bwyd fel cyfle galw cyfradd fawr arall
3. Seilwaith meddal i ddatblygu gallu cynhyrchiol, marchnad ac ariannol ar yr ochr gyflenwi
4. Seilwaith caled i leddfu'r cyfyngiad benthyca diogel ar ehangiad BBaChau

## Beth ddylid ei wneud? Ymyriadau yn seiliedig ar ddiffiniad o broblem

Dylid seilio polisi Llywodraeth Cymru tuag at BBaChau ym maes bwyd a diod ar ddiffiniad problem cyffredin ac eang o'r system fwyd a modelau busnes cynhyrchwyr. Bydd aneffeithiolrwydd neu amherthnasedd yn deillio os bydd llunwyr polisi yn defnyddio ysgogiadau polisi neu'n sefydlu sefydliadau heb wneud y cysylltiad â diffiniadau problem â phwyslais a phenodol i'r system. O ran bwyd, prin y bydd lleoliaeth cod post drwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn ei gyflawni ac nid yw'r Banc Datblygu yn diwallu anghenion BBaChau sy'n eiddo teuluol.

Bwriedir i'r dadansoddiad economi sylfaenol o BBaChau bwyd yn yr adrannau blaenorol ddarparu'r cysyniadau a'r dystiolaeth y gallem adeiladu diffiniad problem cyffredin ar eu sail ac yna datblygu cyfres o bolisïau ochr alw a chyflenwi. Mae'r dull economi sylfaenol yn ddeublyg o'r safbwynt bod y pwyslais ar ddadansoddi system fwyd Cymru a phroblemau model busnes BBaChau. Dylid cynnig crynodeb byr.

- Dylai llunwyr polisi wahaniaethu rhwng tri gwahanol amcan polisi lleol. Mae cyrchu lleol o berthnasedd cyfradd cyffredinol cyfyngedig mewn system fwyd mewnforion/ allforion uchel. Mae stoc leol yn wahaniaethydd marchnad i gyfryngwyr fel archfarchnadoedd a chyfryngwyr gwasanaeth bwyd pan fydd cynhyrchwyr yn gallu bodloni'r pwynt pris, yn ogystal ag ar gyfer gwerthiannau uniongyrchol ar gyfraddau bach. Mae gwerth ychwanegol lleol yn angenrheidiol os yw Cymru yn mynd i gael stoc o fwy o BBaChau a BBaChau mwy.

- Dylai llunwyr polisi wahanu yn eglur polisïau sy'n cael effaith diwylliannol-gymdeithasol a micro-economaidd a'r rhai sydd â chyrhaeddiad economaidd cyfradd fawr: er enghraifft, polisïau ar gyfer prydau ysgol o ansawdd yn erbyn cynyddu stoc llinellau cynnyrch o Gymru mewn archfarchnadoedd. Mae'r ddau yn ddilys yn eu gwahanol ffyrdd, ond ni ddylem eu drysu a chydnabod bod y system fwyd wedi'i threfnu fel bod arloesi amgen ar raddfa fach yn annhebygol o greu'r sail gwerth ychwanegol angenrheidiol, oni bai fod llwybrau ymarferol i dwf i rai o'r cwmnïau llai hyn.

- Dylai llunwyr polisi gydnabod bod cyfyngiadau polisi yn cael eu pennu gan feintiau bach rhai llifau yn y system fwyd. Mae caffael bwyd cyhoeddus yn rhy fach o ran gwerth i sicrhau ysgogiad economaidd uniongyrchol sylweddol ar y stoc o BBaChau trwy bolisïau cod post o newid contractau i gwmnïau lleol. Yn yr achos hwnnw, ceir lle i ysgogiad anuniongyrchol, yn yr un modd â defnyddio contractau cyhoeddus i berswadio dosbarthwyr gwasanaeth bwyd i stocio mwy o linellau o Gymru. Gellir hefyd defnyddio caffael yn strategol i annog amrywio'r cynhyrchion sydd ar gael.

- Dylai llunwyr polisi gydnabod bod meintiau mawr yn y system fwyd yn diffinio cyfleoedd fel mai'r cyfryngwyr archfarchnad a gwasanaeth bwyd yw'r porth i werthiannau cyfradd fawr a gwerth ychwanegol yng Nghymru a marchnad allforio'r DU, nawr ac yn ystod y dyfodol rhagweladwy. Ar yr ochr alw, dylai datblygu polisïau LlC sy'n dylanwadu

penderfyniad archfarchnadoedd a gwasanaethau bwyd i stocio llinellau o Gymru fod yn brif flaenoriaeth.

- Dylai llunwyr polisi dderbyn bod capasiti ochr gyflenwi BBaChau Cymru i ymateb i gyfleoedd wedi'i gyfyngu anhawster twf newid sylweddol o dan y model busnes presennol. Yn benodol, mae'n rhaid i bolisi roi sylw i'r broblem BBaCh bod y gallu i gynhyrchu arian parod mewnol yn gyfyngedig, a bod benthyg diogel yn anodd oherwydd problem gwerth marchnad yn erbyn cost o ran offer, adeiladau a thir y cwmni.

Pan fydd y problemau hyn yn cael eu hegluro, mae'n dod yn amlwg na fydd ymyriadau pwynt polisi yn datrys y broblem. Mae tyfu a chynnal y boblogaeth o BBaChau prosesu bwyd a diod yn gofyn am gyfres o ymyriadau cysylltiedig sy'n creu cyfleoedd cyfradd fawr newydd i BBaChau ar yr ochr alw, ac ar yr un pryd ar yr ochr gyflenwi yn symud cyfyngiadau model busnes ar dwf.

Mae hyn yn arwain ymlaen o ddulliau cynharach o'r safbwynt mai'r nod yw newid yr amgylchedd o gwmpas microgwmnïau a BBaCh fel bod ehangiad cynhyrchiol yn dod yn haws ac yn fwy deniadol. Felly, yn yr oes cyn i gyllidoli gynyddu gwerth cyfranddalwyr, gwnaeth *Why are the British Bad at Manufacturing*[23] ddadl dros newid yr amodau o gyfrifo menter yng nghyswllt CCCau y DU. Neu, yn yr oes cyn i globaleiddio danseilio arbenigo hyblyg, pwysleisiodd awduron fel Bianchi[24] bwysigrwydd seilwaith sefydliadol yn y Drydedd Eidal.

Mae'r dull a fabwysiadwyd yn adrannau gweithredu yr adroddiad hwn yn cyd-fynd a *Why are the British* ond yn mynd y tu hwnt i Bianchi et al., sy'n cymryd amodau galw yn ganiataol. Y ddadl isod yw mai newid amodau galw ymhlith archfarchnadoedd a dosbarthwyr gwasanaeth bwyd yw'r anghenraid cyntaf a'r rhag-amod ar gyfer sicrhau enillion o ffurfiau newydd o gymorth sefydliadol a buddsoddiadau presennol mewn cymorth busnes.

## *(1) Archfarchnadoedd fel y cyfle cyfradd fwyaf i BBaChau*

Y flaenoriaeth weithredu gyntaf i Lywodraeth Cymru ddylai fod cael sawl archfarchnad fawr i symud yn barhaol i gynnig mwy o linellau cynnyrch o Gymru. Ceir potensial enfawr yma gan fod aelwydydd Cymru yn gwario £3.8 biliwn ar fwyd a diod dialcohol bob blwyddyn ac mae dros 80 y cant o'r gwariant hwn gyda chadwyni archfarchnad y DU gyfan.

Mae'r archfarchnadoedd yn dweud y pethau iawn yn gynyddol o ran stoc leol gan eu bod yn dweud wrthym mai dyma mae eu cwsmeriaid ei eisiau (ond heb dalu premiwm). Mae'r rhan fwyaf o archfarchnadoedd y DU hefyd yn gweithredu rhyw fath o gynllun datblygu neu hybu cyflenwyr ar gyfer cynhyrchwyr amaethyddol domestig neu BBaChau addawol. Yn y rhain, mae manwerthwyr fel rheol yn cynorthwyo cyflenwyr wedi'u targedu i ddatblygu gallu i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd a'r ansawdd sydd eu hangen ar yr archfarchnadoedd, gan

[23] J. Williams, K. Williams a D. Thomas (1983) *Why are the British Bad at Manufacturing?*
[24] P. Bianchi et al., (1997) *The Italian SME Experience* .

gynnig trefniadau cyflenwi cefnogol, fel cyfnodau credyd byrrach, contractau hwy neu brisio sefydlog.

Mae cyfweliadau masnach yn awgrymu bod stoc leol yn cael ei chymryd mwy o ddifrif yn yr Alban a Gogledd Iwerddon nag yng Nghymru oherwydd tueddiad hirhoedlog corfforaethau â'u pencadlys yn Lloegr i drin Cymru yn ddaearyddol fel atodiad i'w marchnad yn Lloegr. Mae ein cyfweliadau yn awgrymu bod Morrisons a'r Co-op ar y blaen ar hyn o bryd o ran ymrwymiad i stoc leol yng Nghymru gydag Aldi yn dilyn. Mae rhywfaint o'r cynnydd yn ystyrlon: er enghraifft, mae Morrisons wedi cyflwyno system o ddanfoniad uniongyrchol i siopau (nid canolfan ddosbarthu ranbarthol), sy'n llawer mwy cyfleus i gyflenwyr rhanbarthol bach.

Fodd bynnag, mae'n anodd barnu ymrwymiad a gwelliant pan mai dim ond y Co-op sy'n cyhoeddi mesurau blynyddol ar hyn o bryd, ac mae hyd yn oed y rhain ar ffurf hynod gydgasgledig; ac mae gennym ddiffyg data cymharol hefyd ar yr Alban a Gogledd Iwerddon a fyddai'n galluogi meincnodi. Yn nodweddiadol, ceir diffyg tryloywder o ran canlyniadau diriaethol mewn mentrau stoc leol a datblygu cyflenwyr.

Mae pobl y tu mewn i'r diwydiant yn dweud yn y gorffennol nad yw ymrwymiad rhai cadwyni i gyrchu lleol wedi cael ei gynnal wrth i bolisïau a phersonél newid. Mae'r cadwyni wedi cymryd eu tro i wneud rhywbeth ers cryn amser, wrth i gwmnïau unigol gymryd dau gam ymlaen ac un cam yn ôl. Y canlyniad yw clytwaith anghydlynol, anhryloyw, newidiol o fentrau na fyddant - er gwaethaf nodweddion canmoladwy cynlluniau unigol - yn sicrhau newid ystyrlon yn y system fwyd.

Dangosir y broblem gan record Tesco. O 2008 tan 2013, lleolwyd uwch brynwr gan Tesco mewn siop yng Nghymru â mandad i ddatblygu rhestr y cwmni o gyflenwyr yng Nghymru. Roeddent yn cyflenwi nwyddau gwerth £100 miliwn y flwyddyn ar yr adeg pan newidiodd polisi corfforaethol, gadawodd y prynwr a ni chafodd ei ddisodli. Yn 2021, ailgyflwynwyd prynwr mewn siop yng Nghymru gan Tesco ac mae wedi cyflwyno targedau uchelgeisiol i gynyddu nifer y cyflenwyr lleol a'r llinellau cynnyrch ar silffoedd Tesco yng Nghymru. Ond mae hyn yn dibynnu unwaith eto ar un unigolyn.

Yr hyn sydd ei angen yw polisi creadigol sy'n adeiladu ar yr ewyllys da a'r momentwm amlwg ymhlith archfarchnadoedd tuag at fwy o stoc leol (a'r rhaglenni datblygu cyflenwyr sy'n galluogi'r stoc leol hon), ond sy'n ymestyn lefelau'r uchelgais, y tryloywder a'r cydgysylltiad. Gall hyn wneud mentrau archfarchnad yn fwy na chyfanswm eu cydrannau. Y nod fyddai cael y tu hwnt i fwy o ddreigiau coch ar becynnau bwyd gyda phroses sy'n helpu archfarchnadoedd, fel y gweithredwyr mwyaf grymus yn system fwyd Cymru, oresgyn eu problemau gweithredu cyfunol a chyfrannu at newid hirdymor mwy ystyrlon.

Yma, gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio ei hawdurdod i arwain y ffordd trwy gychwyn sgwrs lefel uchel gydag uwch reolwyr yn y cadwyni archfarchnadoedd. Byddai'r sgyrsiau gyda phob cadwyn yn wahanol a gallent gychwyn gyda'r ddwy gadwyn - Morrisons a'r Co-op – sy'n "arwain y ffordd" gan fod stoc leol eisoes yn rhan o'u hunaniaeth. Ceir cyfle hefyd i ymgysylltu ag Aldi and Lidl, y mae'r ddau ohonynt yn bwriadu agor siopau sylweddol ledled Cymru.

Y nod hirdymor ddylai fod ymrwymiadau i dargedau ar gyfer stoc o Gymru, yn seiliedig ar fetrigau cyffredin a phrosesau adrodd tryloyw. Y ganlyneb fyddai ymrwymiadau archfarchnadoedd i fentrau datblygu cyflenwyr o Gymru hirdymor, gan gynnwys mesurau ategol i oresgyn y rhwystrau a wynebir gan BBaChau sy'n ymuno â chadwyni cyflenwi archfarchnadoedd. Gallai hyn gynnwys mesurau fel cymorth gyda mentora a datblygu gallu, telerau credyd llai beichus, neilltuadau o le ar silffoedd, a galluogi danfoniadau yn syth i siopau.

Ymrwymiad adnoddau sefydliadol archfarchnadoedd trwy ffurfio timau lleol yng Nghymru ar gyfer prynu ac ar gyfer datblygu cyflenwyr yw'r rhag-amod allweddol ar gyfer newid parhaus gan mai dyna'r unig ffordd o roi'r gorau i drin Cymru fel atodiad. Mae llawer o gadwyni yn dal i weithredu prynu canolog o bencadlysoedd yn y DU, ac mae rhan sylweddol o'r hyn y mae Lidl yn ei wneud yn dal i gael ei benderfynu ar lefel Ewropeaidd.

Gellid sgorio a chyhoeddi ymrwymiad sefydliadol y cadwyni archfarchnad i gyrchu o Gymru a datblygwyr cyflenwyr yn flynyddol mewn tablau cynghrair wedi'u noddi gan Lywodraeth Cymru (yn yr un modd, er enghraifft, ag yn adroddiad blynyddol *Good Food for London*, sy'n hysbysu dinasyddion am yr hyn y mae pob bwrdeistref yn ei wneud i hybu bwyd cynaliadwy mewn mannau cyhoeddus). Gellir gwneud ymrwymiadau ac archwiliadau o berfformiad a llwyddiant archfarchnadoedd o ran cyrchu lleol yn amlwg i ddefnyddwyr a dosbarth gwleidyddol Cymru, er enghraifft dyfarnu perfformiad o ran gwahanol feini prawf fel "arwain y ffordd", "yn gwneud cynnydd boddhaol" neu "anfoddhaol".

Gellid cydgysylltu hyn yn y pen draw trwy siarter manwerthwyr lluosog Cymru, wedi'i ddatblygu a'i reoli mewn trafodaethau rhwng llywodraeth, diwydiant a chymdeithas sifil, gan ddarparu lefelau cynyddol o ymwybyddiaeth gyhoeddus a chyfreithlondeb ehangach. Dyma ganlyniad rhesymegol sgwrs lle mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio ei bod yn disgwyl mwy gan y cadwyni manwerthu na dod â chynnyrch i mewn a chymryd yr arian allan o Gymru. "Rhywbeth am rywbeth" ddylai disgwyliad Llywodraeth Cymru fod.

### *(2) Dosbarthu gwasanaeth bwyd fel cyfle galw cyfradd fawr arall*

Yr ail flaenoriaeth weithredu i Lywodraeth Cymru ddylai fod cael dosbarthwyr gwasanaeth bwyd i newid yn barhaol i gynnig mwy o linellau cynnyrch bwyd o Gymru. Ceir potensial enfawr yma gan fod gwariant bwytai a siopau tecawê aelwydydd yn £2.8 biliwn ar fwyd a diod dialcohol bob blwyddyn; ond mae'n rhaid datgloi'r potensial trwy ganolbwyntio ar y ddau ddosbarthwr bwyd BBaCh wedi'u gwreiddio - Castell Howell a Harlech - a pherswadio byrddau gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio gwariant sector cyhoeddus cymharol fach Cymru i gymell y cwmnïau hyn y stocio mwy o linellau sy'n tarddu o Gymru.

Y cyfle yw bod gan Gymru ddau ddosbarthwr bwyd sy'n dymuno cefnogi proseswyr yng Nghymru a hefyd cludo cynnyrch o Gymru dros y ffin. Mae contractau sector cyhoeddus eisoes yn rhan sylweddol o'u busnes: contractau bwyd sector cyhoeddus Cymru yn 2019 oedd £18 miliwn o drosiant Castell Howell o £143 miliwn. Nod y ddau ddosbarthwr yw cynyddu eu busnes gwasanaeth bwyd sector cyhoeddus y tu mewn i Gymru a'r tu allan. Maent yn dweud wrthym y gallant stocio mwy o linellau o Gymru ac y byddant yn gwneud hynny os cânt eu

cymell i wneud hynny gyda chontractau cyflenwi bwyd sector cyhoeddus sy'n neilltuo llai o bwysigrwydd i bris a mwy i werth cymdeithasol stoc leol.

Ceir cyfle yma i ddefnyddio gwariant bwyd ac arlwyo sector cyhoeddus yn strategol gyda Llywodraeth Cymru yn broceru cytundebau "rhywbeth am rywbeth" gyda dosbarthwyr o ran telerau eu contractau sector cyhoeddus. Y rhag-amod yw bod angen i isadrannau Llywodraeth Cymru (economi sylfaenol, amaethyddiaeth a bwyd, caffael) gydweithio a thrwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus ar newid y contractau bwyd.

Yr hyn y mae Castell Howell a Harlech ei eisiau yw newid i'r pwysoliadau pris/ ansawdd mewn contractau bwyd sector cyhoeddus Cymru o bwysoliadau ansawdd mor isel ag 20% mewn rhai contractau presennol a thuag at bwysoliad ansawdd o 50% mewn contractau newydd, lle byddai ansawdd yn cael ei ddeall yn bennaf fel stoc leol. Yn gyfnewid am y consesiwn hwnnw, byddai'n rhaid i'r dosbarthwyr dderbyn targedau ar gyfer: stocio mwy o linellau o Gymru; cymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am ddatblygiad cwmnïau cyflenwi i ehangu'r amrywiaeth o gynhyrchion ac osgoi gorddibyniaeth ar nifer fach o gynhyrchwyr; ac am ehangu eu rhwydweithiau fel y gallant gludo cynnyrch o Gymru i ranbarthau cyfagos.

Y cyfyngiad strwythurol yma yw maint bach galw bwyd ac arlwyo sector cyhoeddus Cymru sy'n ddim mwy na £90 miliwn, fel yr ydym wedi gweld, ac yn cael ei rannu rhwng llawer o gategorïau a gwahanol awdurdodau. Gellir defnyddio'r grym prynu bach, gwasgaredig hwn yn strategol dim ond os bydd galw yn cael ei gydgrynhoi fel bod Castell Howell a Harlech yn cael cynnig nifer fach o gontractau wedi'u pwysoli yn drwm am gyfnodau hwy na'r hyn sy'n arferol ym maes gwasanaeth bwyd. Yn y lle cyntaf, mae hyn yn golygu sicrhau bod y prynwyr awdurdod lleol mwy yn gefnogol a chefnogi'n ddetholus rhai o'r modelau newydd o gaffael sydd eisoes ar y gweill. Er enghraifft, mae dull gwasanaethau cyffredin newydd yn dod i'r amlwg yng nghylchoedd CLlLC, ac felly hefyd yn GIG Cymru.

I bob pwrpas, mae cydgrynhoi galw yn fater o awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cydweithredu, oherwydd gyda'i gilydd mae'r ddwy set hyn o awdurdodau cyhoeddus yn gyfrifol am 90% o alw bwyd ac arlwyo sector cyhoeddus Cymru. Mae'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn darparu fforwm lle mae'r awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd eisoes yn cyfarfod a dyma'r fforwm lle gallai newidiadau i arferion yn y system fwyd a systemau dibyniaeth eraill gael eu hannog yn rhan o gam nesaf defnyddiol o symud y tu hwnt i'r polisi generig o leoliaeth cod post a chanolbwyntio ar ymyriadau mewn systemau penodol fel bwyd a gofal.

Mae rhai gweithwyr prynu proffesiynol yn amheus ynghylch y posibilrwydd o ail-bwysoli contractau oddi wrth bris a chydgrynhoi galw. Gallai cydgrynhoi o'r fath fod yn her pan na fydd awdurdodau lleol wedi arfer â chydweithredu fel hyn, tra bod rheidrwydd cost leiaf yn y byrddau iechyd nad ydynt wedi'u hariannu yn ddigonol yn llesteirio pwysoli ansawdd. Os oedd cydgrynhoi galw ar gyfer prisiau is yn aflwyddiannus mewn cyfnod cynharach, gallai'r un amodai o weithio mewn seilos danseilio polisïau o gydgrynhoi galw ar gyfer gwerth cymdeithasol.

Yn y cyd-destun hwn, gallai Llywodraeth Cymru gael cynllun wrth gefn rhag ofn y bydd cydgrynhoi yn siomi. Gallai fod yn anodd yn wleidyddol ond yn angenrheidiol yn ymarferol i archwilio cwmnïau masnachu hyd braich fel dewis amgen, os bydd y broses o ddiwygio prynu sector cyhoeddus drwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn mynd rhagddi yn araf. Yn yr un modd a Newport Norse neu Arlwyo Newydd yn Sir y Fflint, gall cwmnïau masnachu awdurdodau lleol fwndelu caffael a darpariaeth gwasanaethau arlwyo a glanhau mewn un BBaCh sydd, o dan reolaeth broffesiynol, yn cyfuno craffter masnachol a gwerthoedd cyhoeddus; gall y cwmnïau hyn hefyd chwilio am fusnes ychwanegol sy'n cynyddu eu gwariant.

Efallai y bydd angen cynllun wrth gefn os gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd ddatblygu drwy'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus gyd-ddealltwriaeth o feintiau perthnasol a phwysigrwydd gwahaniaethu rhwng polisi ar gyfer gwahanol systemau dibyniaeth sylfaenol. Mae angen iddynt gydnabod bod y symiau y gellir eu trosglwyddo i godau post lleol yn rhy fach i gynnal BBaChau bwyd ac, os gallant gynnal ychydig o ficrogwmnïau, nid yw hyn yn mynd i'r afael â'r broblem o drosglwyddo i BBaCh.

Wrth gwrs, efallai y bydd defnyddio strategol eraill o gaffael cyhoeddus ym maes bwyd. Er enghraifft, gallai caffael fod o gymorth i ehangu amrywiaeth y cynnig o gynhyrchion a helpu i gefnogi microgwmnïau a chwmnïau prosesu bach (a thyfwyr) i ddatblygu cynhyrchion newydd neu'r rhai nad ydynt ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, a bydd cyfleoedd uwchfarchnad sector cyhoeddus ym meysydd lletygarwch a manwerthu annibynnol hefyd, a fydd yn caniatáu twf pellach. Ni ddylid caniatáu i'r cyfleoedd strategol hyn dynnu sylw oddi wrth y pwynt sylfaenol bod stoc fwy o BBaChau yn gofyn am sail gyfradd fawr mewn cynhyrchion sy'n bodloni'r pwyntiau pris sy'n ofynnol ar gyfer marchnadoedd prif ffrwd.

## *(3) Seilwaith i ddatblygu gallu cynhyrchiol, marchnad ac ariannol ar yr ochr gyflenwi*

Os yw Cymru yn dymuno llenwi'r "canol coll", y rhagofyniad cyntaf yw didoli cyfleoedd cyfradd fawr newydd ar yr ochr alw ac, fel rydym wedi dadlau, bydd hynny yn mynd â Llywodraeth Cymru i feysydd newydd gyda chadwyni archfarchnad a'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus i feysydd newydd ynghylch contractau "rhywbeth am rywbeth" gyda dosbarthwyr gwasanaeth bwyd. Ond bydd hynny ddim ond yn arwain at fwy o BBaChau os, ar yr un pryd, y bydd polisi yn mynd i'r afael â materion seilwaith meddal a chaled ar yr ochr gyflenwi ac yn cael gwared ar rwystrau i ddatblygiad cwmnïau.

Y rhan o bolisi ochr gyflenwi a ddylai fod yn gymharol syml yw amddiffyn a datblygu seilwaith meddal cymorth a chyngor busnes sy'n creu gallu cynhyrchiol, marchnad ac ariannol fel nad yw microgwmnïau a BBaChau wedi'u cyfyngu gan eu capasiti mewnol. Mewn egwyddor, mae hyn yn gymharol hawdd oherwydd y cwbl y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ei wneud yma yw datblygu ac ymestyn o ran cyngor a chymorth busnes i ficrogwmnïau a BBaChau; yn ymarferol, mae'n gymhleth fel popeth arall.

Mae adnoddau Llywodraeth Cymru yn gyfyngedig, a bydd yn rhaid i ddatblygiad seilwaith meddal a chaled gael ei gydariannu gyda phedwar rhanbarth Cymru a'i ddarparu mewn ffordd sy'n sensitif i'r ffurflywodraeth lluosganolog newydd sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru. Yma, mae'n bosibl adeiladu ar ragweledigaeth awdurdodau lleol blaengar sydd wedi arwain y ffordd o ran darparu seilwaith, fel y gwnaeth Cyngor Ceredigion gyda Chanolfan Bwyd Cymru yn Horeb â Chyngor Sir Gaerfyrddin gyda pharc bwyd Cross Hands.

Fe yr ydym wedi nodi, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu gwasanaeth cyngor gwych ar gyfer microgwmnïau a BBaChau bwyd gyda chefnogaeth tair canolfan arloesi bwyd yn y gogledd-ddwyrain, y de-orllewin a'r de-ddwyrain. Mae'r rhain yn darparu cymorth ymarferol ar dechnoleg bwyd, ac yn achos Horeb gofod gwneuthurwyr sydd wedi'i drefnu yn hyblyg. Y dasg yma yw amddiffyn ac ehangu'r ddarpariaeth bresennol sy'n helpu microgwmnïau i oresgyn rhwystrau presennol a darparu cymorth parhaus ar gyfer datblygu galluoedd (neu ochrgamu diffyg gallu) ymhlith microgwmnïau a BBaChau. I'r cwmnïau lleiaf, gallai hyn hefyd gynnwys syniadau newydd ynghylch mynediad cyffredin at gymorth rheoli proffesiynol i helpu cwmnïau uchelgeisiol i ochrgamu'r benbleth eu bod yn rhy fach i fforddio i gyflogi rheolwyr ac eto angen yr adnodd hwn i ddatblygu yn llwyddiannus.

Yn hyn oll, mae gan Gymru ddeunydd polisi diwydiannol unigryw, newydd, penodol i'r sector sy'n briodol ar gyfer sector cyffredin, plaen. Bydd cymorth a chyngor sydd â'r nod o ddatblygu'r canol coll ym maes bwyd yn golygu parhau (yn gyfnodol mae'n debyg) cymorth i BBaChau trwy gamau olynol ehangu. Mae hyn yn rhywbeth gwahanol iawn i fodel Lloegr o bolisi diwydiannol fel cymorth ariannol ar gyfer prosiectau arloesi cam cynnar ar wahân i gorfforaethau mawr â'r gallu i fasnacholi beth bynnag ddaw allan o ganolfan arloesi a ariennir gan y wladwriaeth.

Ond nid yw seilwaith meddal presennol Cymru ar gyfer datblygu gallu cynhyrchiol, marchnad ac ariannol wedi datblygu yn rhan o ddyluniad gwleidyddol ymwybodol. Y risg yw na fydd llunwyr polisi Cymru yn gwerthfawrogi gwerth yr hyn sydd ganddynt, yn ogystal â chydnabod ei fod yn dibynnu ar gyllid grant. Mae hyn yr un mor berthnasol i wybodaeth fusnes, data a chymorth busnes ag y mae i wasanaethau technolegydd bwyd. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn tanysgrifio i ddata marchnad nwyddau groser Kantar y mae gan lawer o BBaChau wedi'u gwreiddio yng Nghymru fynediad atynt wedyn am gost isel neu am ddim; roedd y rhai a gyfwelwyd yn eglur iawn am bwysigrwydd data o'r fath o gofio'r newid cyflym iawn i flas defnyddwyr o ran bwyd a diod.

Mae'r her o amddiffyn y ddarpariaeth bresennol yn fwyaf acíwt gyda'r canolfannau arloesi fel Canolfan Bwyd Cymru yn Horeb, y mae ei chyllid grant presennol yn dod i ben ymhen dwy flynedd. Nid oes unrhyw fodel busnes masnachol a fyddai'n caniatáu i'r canolfannau arloesi bwyd ddarparu'r un gwasanaethau i BBaChau am brisiau y gallent eu fforddio. Yn 2001, er enghraifft, galluogodd cyllid o Gynllun Her Cyfalaf Cymru Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfleuster Canolfan Bwyd Horeb gwerth £1.7 miliwn gael ei adeiladu gydag offer cwbl barod ac y gellid ei ad-drefnu a'u logi fesul diwrnod am brisiau isel gan nad oes yn rhaid talu costau cyfalaf.

Er y gellir trefnu a chydgysylltu cyngor busnes yn genedlaethol ac yn ôl sector, mae'n rhaid dosbarthu canolfannau arloesi yn rhanbarthol os yw eu cymorth yn mynd i fod yn berthnasol i ficrogwmnïau a BBaChau bach. Mae Cymru angen canolfan arloesi bwyd wedi'i hariannu yn briodol yn o leiaf tri o bedwar rhanbarth Cymru i helpu i gefnogi llwybrau twf. Mae'r canolfannau hyn yn seilwaith hanfodol sydd angen cyllid cyhoeddus.

## *(4) Seilwaith i leddfu'r cyfyngiad benthyca diogel ar ehangiad BBaChau*

Mae seilwaith meddal yn bwysig ar gyfer datblygu gallu ond nid yw gallu yn werth dim os na all y BBaCh sy'n ennill yr archeb gydag archfarchnad neu ddosbarthwr gwasanaeth bwyd yn gallu ariannu wedyn y llinell gynhyrchu newydd a'r adeilad i uwchraddio. Mae angen rhoi'r cyfyngiad ariannol hwn yng nghyd-destun ein diffiniad problem mwy gyda chydnabyddiaeth bod y dull uniongyrchol o fenthyciadau mwy meddal i gwmnïau unigol yn annhebygol o fod yn rhan o'r ateb ehangach; ac mae angen i bolisi cyhoeddus feddwl gyda mwy o ddychymyg am sut i gynorthwyo grwpiau o gwmnïau.

Mae'r broblem yma yn cael ei fframio yn draddodiadol fel un yn ymwneud ag ychwanegol cyllid i drwsio "bwlch cyllid" ar gyfer cwmnïau canolig eu maint unigol; fframio sy'n mynd yr holl ffordd yn ôl i Bwyllgor Macmillan ym 1931. Ond awgrym ein dadansoddiad yw na fydd cynnig cyllid ar delerau ffafriol i BBaChau bwyd yn sicrhau'r canlyniadau dymunol os nad yw'r gallu mewnol a'r archebion cyfradd fawr ganddynt eisoes. Ac, mewn llawer o ffyrdd, mae'r ffaith bod banciau stryd fawr traddodiadol Prydain yn mynnu ar fenthyca diogel yn cydnabod hyn; mae'r banc sy'n darparu'r benthyciad â gwybodaeth gyfyngedig am y busnes bwyd BBaCh yn ysgwyddo'r risg o ddirywiad trwy gadw'r hawl i feddiannu asedau eiddo y gellir eu gwerthu os bydd pethau yn mynd o'i le.

Y canlyniad yng Nghymru yw tagfa gyllid ar ffurf y gost adeiladu yn erbyn y broblem gwerth marchnad. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r cwmni BBaCh i sicrhau benthyciadau diogel ar gyfer y cam ehangu nesaf oherwydd bod y banc yn fodlon benthyg ffracsiwn o werth marchnad asedau'r cwmni yn unig, sy'n llawer is na'u costau adeiladu. Mae'r cyfyngiad yn ymwneud nid ag unrhyw ddiffyg perfformiad gan BBaChau Cymru ond â graddiant gwerthoedd eiddo Cymru a Lloegr sy'n gostwng o Lundain a de-ddwyrain Lloegr tuag at y gogledd a'r gorllewin lle mae gwerthoedd eiddo is yn atal ehangiad.

Mae materion yn cael eu cymhlethu yng Nghymru gan ychwanegiad banc datblygu cenedlaethol – Banc Datblygu Cymru – a ariennir gan fenthyciadau gan Lywodraeth Cymru gwerth £1 biliwn ac ecwiti o £200 miliwn, y mae eu gweithrediadau fwy neu lai yn amherthnasol i BBaChau bwyd wedi'u gwreiddio yng Nghymru.

- Ar hyn o bryd, mae Banc Datblygu Cymru yn darparu dwywaith gymaint o gymorth ar ffurf ecwiti nag y mae fel benthyciadau; fodd bynnag, nid yw cwmnïau sy'n eiddo teuluol eisiau ecwiti yn gyffredinol gan eu bod yn ofni colli rheolaeth. O'r safbwynt hwn, y cwbl y gallai hawliadau gwefan Banc Datblygu Cymru am "ymadawiadau proffidiol" ei wneud yw cadarnhau eu hofnau gwaethaf.

- Mae benthyciadau Banc Datblygu Cymru yn gymharol ddrud pan yn 2020 mae gan fenthyciadau (busnes ac nad ydynt yn rhai busnes) Banc Datblygu Cymru gyfradd gyfartalog effeithiol o 7.3%. Mae'n well gan gwmnïau bwyd sydd wedi'u gwreiddio yng Nghymru fynd i fanciau stryd fawr felly, y dywedwyd wrthym eu bod yn sylweddol ratach.
- Nid oes gan Fanc Datblygu Cymru unrhyw wybodaeth arbenigol am y sector bwyd a diod ac ni allai gyfiawnhau gwneud benthyciadau diogel pan fo'r risg credyd sy'n gysylltiedig â'r portffolio benthyciadau presennol yn sylweddol; yn 2020, roedd £117 miliwn o fenthyciadau busnes presennol Banc Datblygu Cymru £38 miliwn yn is oherwydd colledion amhariad.

Mae Banc Datblygu Cymru yn dangos tueddiad Cymru i greu sefydliadau heb unrhyw fanyleb eglur o'r problemau y bwriedir iddynt eu datrys a sut y gallent wneud hynny; ac yn yr achos hwn, y canlyniad yw troi yn efelychol at yr hyn y mae sefydliadau preifat fel banciau stryd fawr ac ecwiti preifat yn ei wneud eisoes. Gellir gwastraffu llawer o egni wedyn ar geisio diwygio'r sefydliad heb wneud fawr o gynnydd o ran darparu gwasanaethau perthnasol i grwpiau cleientiaid.

Y cam cyntaf yn ein hachos penodol ni yw nodi mai'r broblem yw ariannu ehangiad cam nesaf i BBaChau bwyd (sydd, gyda llaw, yn broblem i lawer o BBaChau eraill gan fod prisiau eiddo Cymru yn creu problem fwy cyffredinol ynghylch benthyca diogel pan fydd gwerth marchnad yn llai na chostau a ysgwyddir). Nid yw darparu cyllid heb ddiogelwch i ehangu ar delerau meddal yn ateb o gwbl gan y bydd yn arwain yn anochel at siomedigaeth gan y bydd yn denu BBaChau diegwyddor sy'n methu ag ad-dalu gan adael darparwr y benthyciad gyda dyledion drwg na ellir eu hadennill.

Os ydym yn meddwl yn wahanol felly am sut i wneud costau ehangu BBaChau yn fwy hylaw, beth am ailystyried yr ateb o ran yr hyn y byddai'r sector preifat yn ei ystyried fel model cwmni gweithredu/ cwmni eiddo. Gallem leihau costau sefydlog ehangu i'r BBaCh bwyd sy'n ehangu trwy ei wneud yn gwmni gweithredu mewn cyfleuster adeilad newydd y mae'n ei rentu gan gwmni eiddo ac yna'n gosod offer ar les yn ddelfrydol. Os bydd busnes y tenant yn methu, mae'r cwmni eiddo yn ailosod yr uned ac yn manteisio ar ffrwd incwm barhaus, a phan ellir ailddefnyddio'r offer, mae'r cwmni les yn ei ailfeddiannu.

Wrth gwrs, yn y manylion y mae'r maglau gyda mecanweithiau peirianneg ariannol o'r fath. Mewn cartrefi gofal, defnyddiwyd y rhaniad cwmni gweithredu/ cwmni eiddo gan ecwiti preifat i ariannu ehangiad cadwyni gofal trwy gaffaeliadau cyfresol a arweiniodd at gwymp, yn yr un modd â methiant cadwyn gofal Southern Cross yn 2011. Yn y fersiwn hwn o'r model, gwerthwyd yr eiddo o bob cartref gofal a gafaelwyd o'r newydd ymlaen i gwmni eiddo â'r cymhelliad o gwmni gweithredu cartref gofal a oedd yn barod i lofnodi lesoedd hir a oedd yn cynnig cynnydd i rent na ellid eu talu yn y pen draw o lif arian parod y busnes gweithredu. Ond nid oes yn rhaid iddi fod fel hyn.

Y rheidrwydd cyntaf yw landlord buddiant cyhoeddus sy'n chwilio am enillion cymedrol, sefydlog a hirdymor o feddu ar unedau diwydiannol. Gall Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol ddod at ei gilydd i adeiladu a gweithredu unedau diwydiannol y gellir eu had-drefnu yn

hyblyg sydd wedi’u neilltuo ar gyfer prosesu bwyd a diod - â waliau y gellir eu sychu, bordiau wal cilfwaog, sianelau draenio dur gwrthstaen a llawr di-lithro ac ati - a gwneud hyn mewn parciau diwydiannol lle mae seilwaith sylfaenol trydan tri cham, dŵr a thriniaeth elifion i gyd wedi’u trefnu.

Yn yr achos hwn, byddai siawns uchel o ailosod ac ailddefnyddio unrhyw unedau gwag. Safbwynt cyffredinol y rhai a gyfwelwyd oedd bod diffyg gofod masnachol addas ledled Cymru ar gyfer prosesu bwyd a diod. Ac ar sail profiad blaenorol, byddai awdurdod lleol blaengar fel Cyngor Sir Gaerfyrddin bron yn sicr yn barod i ystyried defnyddio ei rymoedd benthyg i adeiladu unedau addas. Gellid dod â Banc Datblygu Cymru i mewn wedyn i gynorthwyo gyda lesu offer fel bod costau cyfalaf twf newid sylweddol BBaChau yn cael eu gostwng ymhellach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn mynd i’r afael â’r broblem benthyg diogel (yn ymwneud â chostau a ysgwyddir yn erbyn gwerth marchnad) mewn ffordd ad hoc yn bennaf trwy ddarparu grantiau i gwmnïau sy’n ehangu, fel Puffin Produce; ond, mewn rhai achosion, fel yn achos Peter’s Pies er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi cael ei hun yn berchen ar dir ac adeiladau lle mae BBaCh bwyd sy’n ehangu yn gweithredu. Yn Hwlffordd, mae Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Penfro a’r ERDF wedi dod at ei gilydd i gynnig lesoedd hir ar blotiau datblygu â gwasanaeth mewn Parc Bwyd Sir Benfro 23 erw newydd. Beth am fynd gam ymhellach a chynnig plotiau a/ neu adeiladau â gwasanaeth mewn lleoliadau fel y Drenewydd lle nad oes safleoedd ac unedau addas ar gael yn ôl un BBaCh bwyd sy’n ehangu.

Os bydd Llywodraeth Cymru eisiau anogaeth, dylai gymryd golwg ar Barc Bwyd Cross Hands sy’n un o’r mentrau mwyaf llwyddiannus yn sector bwyd Cymru ac yn gartref i gwmnïau sy’n cyflogi tua 1,500 o weithwyr ar hyn o bryd. Roedd hyn yn golygu ariannu’n gyhoeddus ased sy’n eiddo i’r cyhoedd gyda Chyngor Sir Gaerfyrddin yn ysgwyddo cost lawn y buddsoddiad cychwynnol o £2.5 miliwn cyn rhentu lle i gwmnïau ar ddau ben y sbectrwm, o Castell Howell i ficrogwmnïau; mae’r safle yn cynhyrchu incwm rhent cyson o £100,000 y flwyddyn yn gyfnewid.

Wrth gwrs, bydd yn angenrheidiol arbrofi gyda’r model busnes, fel y mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi ei wneud gyda Gower View Foods, cwmni pacio menyn yr oedd ei ehangiad yn cynnwys ariannu cyhoeddus a phreifat hybrid o ased a oedd yn eiddo preifat. Gan fod terfyn uchaf o 45% ar faint y grant y gellid ei ddyfarnu i’r prosiect oherwydd rheolau cymorth gwladwriaethol, ysgwyddwyd gweddill y gost gan y cwmni. Caniataodd yr amrywiad hwn ar y model i Gower View gymryd perchnogaeth lawn o’r ased gyda chymal adfachu a oedd yn golygu y byddai’r Cyngor Sir yn adennill gwerth y grant pe bai’r cwmni yn penderfynu gwerthu’r ased o fewn pum mlynedd.

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin yn dweud y gallai lenwi parc bwyd arall yfory, pe bai’r adnoddau ganddo i wneud hynny. Mae hyn codi’r cwestiwn pam nad yw consortia sector cyhoeddus yn adeiladu pedwar neu bump o barciau bwyd newydd ar draws rhanbarthau Cymru; a’u cysylltu â’r tair canolfan arloesi bresennol mewn trefniant prif ganolfan a lloerennau. Byddai hyn yn caniatáu cydgysylltiad o’r seilwaith meddal a chaled sy’n cefnogi BBaChau.

## *Casgliad*

Mae'n amser cychwyn o'r newydd o ran polisi ar BBaChau bwyd lle mae'r holl randdeiliaid ym maes polisi yn cael allan o'u sefyllfa gysurus.

- Ar yr ochr alw, byddai'r cychwyn newydd yn golygu llai o ddibyniaeth ar ddiwygio caffael bwyd sector cyhoeddus fel y brif elfen o bolisi, lle mae canlyniadau yn cael eu cyfyngu gan ddarnio a maint, a gwneud mwy o ymdrech i berswadio archfarchnadoedd a dosbarthwyr gwasanaeth bwyd lle mae canlyniadau yn cael eu hysgogi ar sail maint. Byddai mân gynnydd i bryniannau archfarchnadoedd o stoc o Gymru o tua 2.5% o gyfanswm gwariant aelwydydd yn cynhyrchu cynnydd blynyddol i alw gan BBaChau Cymru a fyddai'n cyfateb i gyfanswm gwerth caffael bwyd ac arlwyo sector cyhoeddus Cymru.[25]

- Ar yr ochr gyflenwi, byddai'r cychwyn newydd yn golygu ymestyn yr ymrwymiad adeiladol presennol i gymorth a chyngor busnes BBaChau a chydnabod mai arloesi cwmni eiddo/cwmni gweithredu yw'r ffordd o ochrgamu'r cyfyngiad o fenthyciadau diogel gan fanciau ar ehangiad BBaChau. Mae'r dyfodol eisoes wedi ein cyrraedd ar ffurf Parc Bwyd Cross Hands a'n tair canolfan arloesi bwyd, sy'n dangos yr hyn y gall y sector cyhoeddus ei wneud os yw'n mynd i'r afael â phroblemau model busnes penodol i weithgarwch.

Y broblem sylfaenol yma yw sut mae Cymru yn cynhyrchu'r capasiti sefydliadol a'r ewyllys gwleidyddol i sicrhau bod y blaenoriaethau gweithredu hyn yn llwyddo. Rydym yn obeithiol ynghylch y materion hyn gan fod yr holl lunwyr polisi a rhanddeiliaid a gyfwelwyd gennym eisiau troi tuag at bolisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n rhoi sylw i broblemau penodol. Ond ceir her wirioneddol o ran troi cydymdeimlad â'r dull hwn yn newid arfer sy'n hybu nifer y llinellau cynnyrch lleol ar silffoedd Tesco ac yn adeiladu unedau mewn parc bwyd newydd.

Y rhag-amod ar gyfer y newid arfer hwn yw cynghrair dros newid sy'n dod â rhanddeiliaid - y BBaChau bwyd, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol - at ei gilydd ar sail buddiannau cyffredin; ac yn ategu hynny gyda'r capasiti i fonitro canlyniadau fel stocio llinellau cynnyrch lleol. Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r 22 o awdurdodau lleol ar sail ranbarthol a sicrhau cefnogaeth gan y stoc bresennol o BBaChau all ac a ddylai fod yn ffynhonnell o bwysau parhaus am bolisïau cyhoeddus mwy perthnasol.

Mae arweinyddiaeth genedlaethol o Fae Caerdydd yn hanfodol ar gyfer cychwyn y sgwrs gyda'r archfarchnadoedd; ond mae angen i'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus chwarae eu rhan o ran gwyro contractau gwasanaeth bwyd awdurdodau lleol a byrddau iechyd oddi wrth bris. Bydd y buddsoddiad cyfalaf mewn parciau bwyd yn dibynnu ar Lywodraeth Cymru yn cyfuno adnoddau ac awdurdodau lleol yn manteisio ar eu pwerau benthyg. Os yw'r ddadl a'r dystiolaeth ynghylch BBaChau bwyd yn yr adroddiad hwn yn argyhoeddiadol, mae'n amser dechrau troi bwriadau da yn arfer da.

[25] £3.8 biliwn yw cyfanswm gwariant aelwydydd Cymru ar fwyd a diodydd dialcohol: pe bai cyrchu lleol yn cael ei gynyddu o swm sy'n gyfwerth â 2.5% o'r gwariant hwn, byddai hyn yn arwain at £95 miliwn o drosiant ychwanegol i gyflenwyr. Byddai defnyddio'r un egwyddor ar gyfer bwytai a siopau tecawê yn ychwanegu £55 miliwn a £15 miliwn arall, yn eu trefn.

Wrth gwrs, mae'n wir y bu ein pryder ynghylch un mater cul o sut i gynyddu nifer y cwmnïau BBaCh wedi'u gwreiddio ym maes prosesu a dosbarthu bwyd. Nid ydym wedi rhoi sylw i gyfres o broblemau cysylltiedig sydd ar y gorwel yn ymwneud â defnydd tir a deiet y mae'n rhaid eu hwynebu i fod ag unrhyw siawns o fodloni'r nod Sero Net. Mae'r rhain yn cynnwys goblygiadau'r newid yn yr hinsawdd a hafau sych a phoeth i ddefnydd y tu mewn i Gymru a'r tu allan; y broblem o asedau sownd ym maes cynhyrchu a phrosesu bwyd Cymru o gofio'r ddibyniaeth ar gig a chynnyrch llaeth; a methiant dull iechyd cyhoeddus Lloegr o ostyngiadau gwirfoddol i siwgr a halen i wneud bwyd archfarchnad yn iachach.

Mae system fwyd Cymru ar y trywydd i newid gorfodol ac mae angen diwygio radical sy'n ehangach o ran cwmpas na phwyslais yr adroddiad hwn. Ond mae'n well ystyried yr holl broblemau newydd hyn fel rhai rhyng-gysylltiedig. Byddai gan sector prosesu bwyd BBaCh cryfach y gallu i negodi'r newid fel y gallai ein gwneuthurwyr caws yng Nghymru fod hefyd yn cynhyrchu llinellau (gan gynnwys cynhyrchion planhigion) erbyn 2035 y bydd y corfforaethau mawr yn eu gwerthu ar bris trwy fathau newydd o ddanfoniadau cartref yn ogystal â mewn siopau. Byddai llenwi'r canol coll ym maes bwyd yn rhoi sail o allu prosesu dosbarthedig i Gymru a fyddai'n caniatáu i ni lywio dyfodol bygythiol ac ansicr.

# Atodiadau

1. Problem "canol coll" Cymru
2. Y stoc o fentrau yng Nghymru ym meysydd prosesu bwyd a diodydd
3. Amaethyddiaeth a chyflenwad bwyd Cymru
4. Nodweddion gweithredu ariannol 29 o gwmnïau prosesu bwyd a diod
5. Cronfa ddata Atamis

## Atodiad 1: Problem canol coll Cymru

Roedd adroddiad *What Wales Could Be* 2015 yn dadlau bod gan Gymru broblem "canol coll" o BBaChau. Diweddarwyd y ddal yn adroddiad *Enabling Renewal* yn 2020 yr ydym yn cymryd yr ystadegau empirig a'r ddadl isod ohono.

Mae gan Gymru ddosbarthiad dymbel o gyflogaeth sector preifat yn ôl maint cwmni. Yn 2019, cwmnïau bach a chanolig eu maint oedd ychydig dros un chwarter o gyflogaeth: 9,500 o gwmnïau bach yn y categori 10-49 o gyflogeion yn 15% o gyflogaeth a 2,200 o gwmnïau yn y categori 50-249 o gyflogeion yn oddeutu 12% o gyflogaeth. Mae'r 250,000 o ficrogwmnïau a'r 1,700 o gwmnïau mawr yn fwy nag un rhan o dair o gyflogaeth (Arddangosyn AP1).

**Arddangosyn AP1**: Strwythur busnesau preifat Cymru: nifer y mentrau a chyfran o gyflogaeth a throsiant yn ôl band maint yn 2019[26]

| | Nifer y Mentrau | Cyfran o Gyflogaeth % | Cyfran o Drosiant % |
|---|---|---|---|
| Micro (0 - 9) | 253,640 | 34.9% | 13.0 |
| Bach (10 - 49) | 9,485 | 15.2% | 11.1 |
| Canolig (50 - 249) | 2,215 | 12.4% | 13.7 |
| Mawr (250 +) | 1,705 | 37.6% | 62.1 |
| Cyfansymiau | 267,045 | 100.0% | 100.0% |

Mae'r sector bach a chanolig wedi cynnal ei gyfran o gyflogaeth dros yr ugain mlynedd diwethaf heb ei chynyddu. Y prif newidiadau i ddosbarthiad cyflogaeth yng nghyfnod 2003-19 oedd gostyngiad i gyfran y gyflogaeth cwmnïau mawr a ostyngodd o 42% i 36% yng nghyfnod 2003-19, tra bod cynnydd a oedd yn cyfateb yn fras i gyfran y microgwmnïau o 31 i 35%. Yn yr un modd ag yng ngweddill y DU ond braidd yn fwy eglur, mae cyflogaeth Cymru yn cael ei symud i'r sector microgwmnïau lle mae'r fenter gyfartalog yng Nghymru yn cyflogi 1.6 o bobl yn unig ac nad yw'n gymaint o gwmni â gweithrediad person busnes bach â chynorthwywyr.

O ystyried bod prosesau tebyg o ddad-ddiwydiannu ar draws gogledd a gorllewin Lloegr, mae gan Gymru gyfran debyg o fentrau bach a chanolig o ran nifer y mentrau ag yn y rhanbarthau eraill hyn, ac mae'r cwmnïau hyn gyfran uwch o gyflogaeth a throsiant na chyfartaledd y DU

[26] Ffynhonnell: 'Strwythur busnesau yng Nghymru yn ôl band maint a mesur', StatsCymru. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Structure/Headline-Data/latestbusinessstructureinwales-by-sizeband-measure
Sylwer: Mae'r dosbarthiad o gwmnïau yn ôl niferoedd a gyflogir yn syml ar gyfer microgwmnïau, cwmnïau bach a chwmnïau canolig y mae'n debygol iawn bod ganddynt un sefydliad neu ychydig o sefydliadau yn y rhanbarth. Ond mae'n fwy cymhleth yn achos cwmnïau mawr aml-safle. Yn y gyfres hon, mae 'mawr' yn golygu cwmnïau sy'n cyflogi mwy na 250 o weithwyr ar bob safle y tu mewn i Gymru a'r tu allan. Efallai y bydd y cwmnïau hyn yn cyflogi llai na 250 yn eu sefydliadau cangen yng Nghymru.

mewn gwirionedd. Ond nid yw hyn o reidrwydd yn golygu, fel y mae Munday et al wedi dadlau - nad oes unrhyw ganol coll.

Pwynt y ddadl “canol coll” yw bod dyfodol cyflogaeth sector preifat yng Nghymru yn y dyfodol yn dibynnu ar gynyddu nifer y cwmnïau BBaCh wedi’u gwreiddio galluog. Mewn gwirionedd, prin y mae cynyddu nifer y microgwmnïau bach iawn yn ei wneud i allu a gwydnwch cwmnïau oni bai eu bod yn tyfu i fod yn BBaChau. Ac, fel y dadleuwyd yn adroddiad Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn 2015, mae’r budd yn gyfyngedig os bydd Cymru yn tyfu BBaChau galluog i’w gwerthu ymlaen fel eu bod yn troi’n ganghennau cynhyrchu neu ddosbarthu i gorfforaethau mawr.

Ac o ran cyflogwyr sector preifat mawr, fel yr ydym wedi nodi, mae eu cyfran o gyflogaeth wedi crebachu, ac mae’n ymddangos yn annhebygol iawn y byddant yn ehangu eu gweithrediadau yn y blynyddoedd nesaf. Mae cyflogaeth breifat Cymru mewn cwmnïau ‘enw cyfarwydd’ mwy yn amlwg yn ansicr. Ar ôl Covid 19 a Brexit, mae Airbus a GE Aviation yn debygol o leihau o ran maint; a cheir posibilrwydd y gallai Tata Steel adael, fel y mae Ford wedi ei wneud o Ben-y-bont ar Ogwr yn ystod hydref 2020. Yn fwy pryderus, mae’r sector mentrau preifat mawr yng Nghymru yn llawn ail haen o fentrau sector preifat sy’n eiddo rhyngwladol yn bennaf â gweithrediadau cangen cymharol fach ac agored i niwed yng Nghymru.

## Atodiad 2: Y stoc o fentrau yng Nghymru ym meysydd prosesu bwyd a diodydd

Nid oes unrhyw un ffordd syml, heb broblemau o gyfrif cwmnïau. Ac mae'r problemau yn cael eu gwaethygu os mai'r nod yw cyfrif cwmnïau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru neu'n ychwanegu gwerth ychwanegol sylweddol yng Nghymru. Mae'r sampl 29 cwmni yn Atodiad 4 yn seiliedig ar gwmnïau sydd wedi'u cofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau y mae'n rhaid iddynt roi cyfeiriad pencadlys y tu mewn i Gymru neu'r tu allan. Mae'r cyfrif cyflawn o gwmnïau yng Nghymru yng nghategorïau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) ym maes prosesu bwyd a diod isod yn seiliedig ar "fentrau" yn cyflwyno datganiadau TAW a chynllun Talu Wrth Ennill yn unig o gyfeiriad yng Nghymru, a gawsom gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fel rhediad arbennig.

Mae rhybuddion iechyd yn gysylltiedig â chyfrif mentrau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae problemau talgrynnu yn arwain at gyfansymiau mentrau rhyw fymryn yn wahanol yn ôl cyflogaeth a throsiant yn yr un flwyddyn. Mae'r dosbarthiad SIC hefyd yn amwys gan nad yw newidiadau i weithgarwch cwmnïau (e.e., o weithgynhyrchu i ddosbarthu) yn cael eu nodi yn aml. Ni fydd cyfansymiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Thŷ'r Cwmnïau yr un fath gan y gallai cwmnïau mwy ddefnyddio mwy nag un rhif TAW. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cofnodi unrhyw fenter ym maes gweithgynhyrchu bwyd sy'n cyflogi mwy na 500 o gyflogeion; mae data Tŷ'r Cwmnïau yn cynnwys cyfrifon cyflogeion ac yn dangos bod rhai proseswyr bwyd mwy wedi'u lleoli yng Nghymru, fel Memory Lane Cakes.

Mae data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn hynod werthfawr mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'n mesur y stoc gan mai dyma'r unig ffynhonnell sy'n gallu rhoi cyfrif cynhwysfawr o'r holl fentrau prosesu bwyd a diod yng Nghymru, mewn bandiau maint yn ôl cyflogaeth a throsiant. Yn ail, dyma'r unig ffynhonnell sy'n cynnig data cymaradwy o un flwyddyn i'r llall, i alluogi cyfres amser i gael ei llunio ac i wahanu newid cylchol a strwythurol trwy fesur uchafbwynt i uchafbwynt, neu fel isod, o isafswm i uchafswm.

Mae Arddangosyn AP2 yn cyflwyno cymhariaeth isafbwynt i uchafbwynt o nifer y mentrau prosesu bwyd a diod yng Nghymru, o isafbwynt 2010 ar ôl yr argyfwng ariannol, hyd at uchafbwynt 2020 ychydig cyn argyfwng Covid. Gwiriwyd gennym mai (Mawrth) 2020 oedd yr uchafbwynt trwy groeswirio yn erbyn data 2019, sydd hefyd wedi'i gynnwys yn Arddangosyn AP2 at ddibenion cymharu.

**Arddangosyn AP2**: Mentrau prosesu bwyd a diod Cymru yn ôl bandiau cyflogaeth a throsiant[27]

(a) Bandiau cyflogaeth:

| | Mentrau bwyd a diod | | | O'r rhain: mentrau diodydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2019 | 2020 | 2010 | | 2019 | | 2020 | |
| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| 0-9 | 270 | 360 | 390 | 35 | 13% | 100 | 28% | 105 | 27% |
| 10 - 49 | 65 | 75 | 65 | 10 | 15% | 10 | 13% | 5 | 8% |
| 50-249 | 35 | 35 | 40 | 0 | 0% | 5 | 14% | 5 | 13% |
| 250-499 | 5 | 10 | 10 | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Cyfanswm | 375 | 480 | 505 | 45 | 12% | 115 | 24% | 115 | 23% |

(b) Bandiau trosiant:

| | Mentrau bwyd a diod | | | O'r rhain: mentrau diodydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2019 | 2020 | 2010 | | 2019 | | 2020 | |
| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| £0 – 99,000 | 135 | 180 | 190 | 20 | 15% | 50 | 28% | 55 | 29% |
| £100,000 - £999,000 | 170 | 205 | 215 | 15 | 9% | 45 | 22% | 50 | 23% |
| £1m - £9.9m | 60 | 55 | 55 | 10 | 17% | 10 | 18% | 10 | 18% |
| £10m - £49m | 15 | 35 | 35 | 0 | 0% | 5 | 14% | 5 | 14% |
| £50m+ | 5 | 0 | 0 | 0 | 0% | 0 | 0% | 0 | 0% |
| Cyfanswm | 385 | 475 | 495 | 45 | 12% | 110 | 23% | 120 | 24% |

Yn ystod cynnydd cylchol estynedig, byddem yn disgwyl gweld newydd-ddyfodiaid yn cynyddu cyfanswm y mentrau, a hefyd twf i drosiant a chyflogaeth yn gwthio mentrau sydd eisoes yn bodoli i fandiau uwch. Yng nghyfnod 2010-2020, mae pwyslais y sylw ar ddosbarthiad y twf i niferoedd y mentrau rhwng cwmnïau o wahanol feintiau. Yma, mae'r twf wedi'i ogwyddo yn drwm tuag at nifer fwy o ficrogwmnïau ym maes diodydd, â symudedd am i fyny cyfyngedig a thwf anghyson yn y categorïau BBaChau a chwmnïau mawr.

[27] Ffynhonnell: NOMIS. https://www.nomisweb.co.uk/query/select/getdatasetbytheme.asp?theme=49

- Mae nifer y microgwmnïau yn cynyddu ond prin yw'r nifer sy'n pontio i fod yn BBaChau. Mae'r data cyflogaeth yn dangos mai microfentrau oedd 120 o'r cynnydd o 130 i nifer y mentrau yn ystod y degawd hwn. Roedd mwy na dwy ran o dair o'r microfentrau newydd ym maes diodydd. Gan ddefnyddio'r mesur trosiant, mae gennym 110 o gwmnïau ychwanegol ac mae gan union hanner y rheini drosiant o lai na £100,000.

- Prin yw'r microgwmnïau sy'n pontio i fyny oherwydd yn ystod y degawd mae nifer y mentrau BBaCh bach sy'n cyflogi 10-49 yr un fath (65) yn 2020 â deng mlynedd yn gynharach. Mae nifer y mentrau â throsiant rhwng £100,000 ac £1 filiwn yn cynyddu yn gryf gyda 45 o gwmnïau ychwanegol, ac mae 35 o'r rheini ym maes diodydd.

- Mae nifer y BBaChau canolig eu maint yn cynyddu, ond yn wan iawn, gan ddefnyddio'r dangosydd clasurol o gyflogaeth. Mae nifer y cwmnïau sy'n cyflogi 50-249 yn cynyddu o 35 i 40 ac eto mae'r holl gynnydd ym maes diodydd. Mae nifer y mentrau â throsiant o fwy na £10 miliwn yn cynyddu'n gryf, ond mae'r nifer â throsiant o £1 – £9.9 miliwn yn gostwng o 60 i 55.

- Mae'r sector mentrau mawr yn gronig o wan. Mae nifer y mentrau mwy sy'n cyflogi 250-499 yn sownd ar 5 am 9 mlynedd cyn naid yn y flwyddyn olaf sy'n dyblu'r nifer. Ond mae hyn yn debygol o fod yn dwf sy'n gwthio cwmnïau rhyw fymryn heibio'r trothwy o 250 o gyflogeion gan fod nifer y mentrau â throsiant o fwy na £50 miliwn yn gostwng o 5 yn 2010 i ddim yn 2020.

## Atodiad 3: Amaethyddiaeth a chyflenwad bwyd Cymru – dibyniaeth ar allforio a mewnforio

Mae amaethyddiaeth Cymru yn hynod arbenigol. Mae hinsawdd a thopograffi yn esbonio'r pwyslais ar gynhyrchu cig coch (cig oed a chig eidion) a chynhyrchion llaeth (llaeth a chaws yn bennaf). Yn fras, daw pedair rhan o bump o incwm ffermydd Cymru o werthu cig coch a chynhyrchion llaeth (Arddangosyn AP3).

**Arddangosyn AP3**: Incwm ffermydd Cymru yn ôl cynnyrch (£ miliwn)[28]

(a) Cyfanswm incwm ffermydd Cymru yn ôl math

| | Cyfran o gyfanswm y refeniw £m | Cyfran o gyfanswm y refeniw % |
|---|---|---|
| Ydau | 26 | 1.7% |
| Garddwriaeth | 49 | 3.2% |
| Da byw | 715 | 47.1% |
| Cynhyrchion da byw | 574 | 37.8% |
| Gweithgareddau amaethyddol eraill | 80 | 5.3% |
| Cnydau eraill | 8 | 0.5% |
| Gweithgarwch eilaidd arall | 54 | 3.6% |
| Tatws | 13 | 0.9% |
| Cyfanswm Allbwn (refeniw) | 1,519 | 100.0% |

(b) Da byw a chynhyrchion da byw yn ôl math

| | Cyfran o gyfanswm refeniw £m | Cyfran o gyfanswm refeniw % |
|---|---|---|
| Gwartheg | 380 | 53.1% |
| Defaid | 271 | 37.9% |
| Moch | 6 | 0.8% |
| Dofednod | 58 | 8.1% |
| Cyfanswm da byw | 715 | 100.0% |
| | | |
| Llaeth a chynhyrchion llaeth | 522 | 90.9% |
| Wyau | 49 | 8.5% |
| Gwlân cneifio | 3 | 0.5% |
| Cyfanswm cynhyrchion da byw | 574 | 100.0% |

[28] Ffynhonnell: Ystadegau ar gyfer Cymru, https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-04/allbwn-ac-incwm-cyfun-amaethyddol-2019-924.pdf

Yr awgrym cyntaf, mwyaf amlwg yw dibyniaeth uchel ar farchnadoedd allforio yng ngweddill y DU a'r UE. Dim ond ffracsiwn bach o'r cig eidion, y cig oen a'r llaeth a gynhyrchir yng Nghymru y gall poblogaeth Cymru o ychydig dros 3 miliwn ei ddefnyddio (Arddangosyn AP4).

- Caiff pump y cant o gig oen o Gymru ei fwyta yng Nghymru, caiff tua 60% ei fwyta yng ngweddill y DU, a chaiff 35% ei fwyta mewn marchnadoedd allforio Ewropeaidd yn bennaf.
- Caiff pump y cant o gig eidion o Gymru ei fwyta yng Nghymru, caiff tua 80% ei fwyta yng ngweddill y DU, a chaiff 15% ei fwyta mewn marchnadoedd allforio[29].

**Arddangosyn AP4**: Cyflenwad Cymru o gig coch i farchnadoedd cartref ac allforio, 2019 (%)[30]

| | Cymru<br>% | Gweddill y DU<br>% | Marchnadoedd Allforio<br>% |
|---|---|---|---|
| Cig oen | 5% | 60% | 35% |
| Cig eidion | 5% | 80% | 15% |

O ran prosesu llaeth, nid dibyniaeth syml ar allforio yw'r broblem ond cadwyni cyflenwi sydd wedi'u hintegreiddio ar draws y ffin. Amcangyfrifir bod cynhyrchiad llaeth Cymru wedi cyrraedd 1,971 miliwn litr yn 2018/19, cynnydd o 123 miliwn litr (7%) ers 2016/17. Fodd bynnag, amcangyfrifir bellach mai dim ond 956 miliwn litr y flwyddyn yw capasiti prosesu presennol Cymru[31] ac erbyn 2020 amcangyfrifir bod tua hanner allbwn llaeth Cymru yn cael ei allforio bellach yn hytrach na chael ei brosesu yng Nghymru.[32]

Nid oes unrhyw brosesydd llaeth hylif mawr yng Nghymru sy'n gallu bodloni galw'r farchnad, o gofio bod archfarchnadoedd wedi sicrhau'r farchnad llaeth hylif. Yn fras, mae hanner llaeth hylif Cymru yn cael ei gludo i Loegr i gael ei brosesu ac mae gweithfeydd yn Lloegr yn gwasanaethu Cymru a gweddill y DU wedyn. Caiff 90% o'r llaeth a brosesir yng Nghymru ei wneud yn gaws lle mae cynhyrchiad Cymru yn cyrraedd tua 100,000 tunnell y flwyddyn, a chafodd 80 % neu fwy ei allforio.

Canlyneb arall arbenigedd cul Cymru mewn cig a chynnyrch llaeth yw lefel uchel o ddibyniaeth ar allforio yn gyffredinol yn y system fwyd. Caiff galw aelwydydd am ddeiet amrywiol ei fodloni gan fewnforion o dir âr dwyrain Lloegr, de Ewrop a gweddill y byd. Yn yr un modd, mae cig a chynnyrch llaeth yn darparu sail fewnbwn gul iawn i broseswyr bwyd Cymru y mae'n rhaid iddynt fewnforio pethau sylfaenol fel blawd gwenith. Mae rhan sylweddol o'r sector prosesu

29 https://meatpromotion.wales/cy/ystadegau-diwydiant
30 Hybu Cig Cymru – Meat Promotion Wales (HCC)
31 https://ahdb.org.uk/news/welsh-milk-surplus-set-to-reach-1-billion-litres-per-year
32 https://ahdb.org.uk/news/balancing-welsh-milk-supplies

bwyd yn troi deunyddiau crai sy'n cael eu mewnforio yn gynhyrchion sy'n cael eu hallforio fel bara, grawnfwyd brecwast neu fariau byrbryd.

Mae'r ddibyniaeth drwm ar gig a chynhyrchion llaeth hefyd yn codi cwestiynau am oblygiadau hirdymor newid deietegol a'r angen i addasu cynhyrchiad i gyflawni addewidion newid yn yr hinsawdd.

## Atodiad 4: Nodweddion gweithredu ariannol 29 o gwmnïau prosesu bwyd a diod

Mae’r ddau dabl isod yn crynhoi nodweddion gweithredu ariannol 29 o gwmnïau canolig eu maint sydd wedi’u lleoli yng Nghymru sydd wedi cael rhyw fath o lwyddiant yn ôl mesur trosiant. Yn 2019, roedd y grŵp hwn, yn gyfunol, yn gyfrifol am £1.6 biliwn o drosiant gwerthiannau ac 8,300 o gyflogeion. O’r 29 o gwmnïau hyn, roedd gan 23 o gwmnïau drosiant gwerthiannau o fwy nag £20 miliwn, ac mae’r cwmnïau sy’n weddill yn yr ystod trosiant £10 i 20 miliwn. Byddem wedi cynnwys cwmnïau llai ond ni allwn wneud hynny gan fod cwmnïau llai yn cyhoeddi cyfrifon ysgerbydol na allwn gyfrifo cymarebau gweithredu ariannol ohonynt.

Mae 27 o’r cwmnïau ym maes prosesu bwyd yn bennaf neu’n gyfan gwbl ac mae dau ym maes dosbarthu gwasanaeth bwyd; mae’r tabl ar ddiwedd yr adran hon yn cynnwys portreadau cryno o’r gwahanol gwmnïau. Mae’r cwmnïau naill ai’n gwmnïau annibynnol â pherchnogaeth yng Nghymru neu’n is-gwmnïau wedi’u lleoli yng Nghymru o gwmnïau ag asedau a gweithrediadau yn rhywle arall. Mae’r is-gwmni yng Nghymru yn rhoi gweithrediad ar wahân wedi’i leoli yng Nghymru i ni fel rheol. Yr eithriad yw Glanbia Cheese lle mae’r cwmni lefel isaf yn cydgrynhoi dau waith (Llangefni yng Nghymru a Magheralin yng Ngogledd Iwerddon) ac yma rydym yn rhannu’r trosiant ar sail 50/50 rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon.

Rydym wedi rhannu’r 29 o gwmnïau yn pum grŵp ar sail eu perchnogaeth a’u rheolaeth:

- Grŵp 1: 11 o gwmnïau wedi’u gwreiddio yng Nghymru â 100% o’u hasedau yng Nghymru, gan gynnwys 9 sy’n eiddo teuluol a 2 sy’n eiddo i fenter gydweithredol neu â rhagflaenyddion cydweithredol.
- Grŵp 2: 4 o gwmnïau wedi’u lled-wreiddio ag asedau wedi’u rhannu rhwng Cymru a Lloegr; eiddo teuluol neu wedi’u cadw yn agos.
- Grŵp 3: 6 is-gwmni rhiant-gwmni amlwladol; weithiau wedi’u rhestru ar y farchnad stoc ond i gyd o dan reolaeth deuluol.
- Grŵp 4: 8 is-gwmni cwmnïau CCC neu fuddsoddiadau ecwiti preifat.

Caiff y cymarebau allweddol fesul grŵp eu crynhoi yn AP5.

**Arddangosyn AP5**: Nodweddion gweithredu ariannol sampl o ddau ddeg naw o gwmnïau prosesu a dosbarthu bwyd â gweithrediadau yng Nghymru, 2015-2019 [33]

| | Wedi'u Gwreiddio<br>% | Wedi'u Lled-wreiddio<br>% | Cwmni Amlwladol Teuluol<br>% | CCC neu Ecwiti Preifat<br>% |
|---|---|---|---|---|
| Twf gwerthiannau 2015-19 | 53% | 42% | 30% | 12% |
| Twf cyflogaeth 2015-19 | 37% | 31% | 24% | 10% |
| | | | | |
| Dosbarthiadau - llog a difidendau - fel % o refeniw gwerthiannau (cyfartaledd) | 18% | 17% | 47% | 17% |
| | | | | |
| Costau prynu fel % o refeniw gwerthiannau (cyfartaledd) | 77% | 81% | 83% | 70% |
| Costau cyflogaeth fel % o refeniw gwerthiannau (cyfartaledd) | 15% | 13% | 10% | 24% |
| Elw arian parod fel % o werthiannau refeniw (cyfartaledd) | 8% | 6% | 7% | 6% |

[33] Ffynhonnell: Tŷ'r Cwmnïau ar gyfer adroddiadau ariannol blynyddol, blynyddoedd amrywiol.
Nodiadau: Y gyfran o ddosbarthiadau arian parod (difidendau a thaliadau llog) yw'r cydgrynhoad o'r holl ddifidendau a thaliadau llog a wneir gan yr holl gwmnïau ym mhob categori ar gyfer y cyfnod 2015-2019 wedi'i rannu gyda chyfanswm yr arian parod o weithrediadau.
Caiff costau prynu eu canfod try dynnu o refeniw gwerthiannau gyfanswm y gwerth ychwanegol ar gyfer yr holl gwmnïau (lle mae gwerth ychwanegol yn golygu adio cyfanswm costau cyflogaeth gan gynnwys buddion cymdeithasol, elw gweithredu cyn llog a threth a dibrisiant).
Yr elw arian parod gweddilliol yw cyfanswm enillion arian parod (enillion cyn treth a dibrisiant llog) i'r holl gwmnïau ym mhob categori wedi'i rannu gyda chyfanswm y refeniw gwerthiannau ar gyfer yr holl gwmnïau ym mhob categori ar gyfer y cyfnod 2015 i 2019.
Cyfrifir twf gwerthiannau a chyflogaeth fel y gwahaniaeth rhwng y ddau gyfnod a chyfrifir arian parod a ddosbarthwyd, pryniannau i werthiannau, costau cyflogaeth mewn gwerthiannau ac elw arian parod mewn gwerthiannau fel y cyfartaledd yn ystod y cyfnod.

Dylid nodi nad yw’r 29 o gwmnïau yn sampl gwyddonol mewn unrhyw ffordd gan nad ydynt yn cael eu dewis yn unol ag unrhyw gyfres o nodweddion neu reol ystadegol a fyddai’n cyfiawnhau cynnwys y cwmnïau hyn ac eithrio eraill. Mae’n sampl ar hap i bob pwrpas, sy’n cynnwys bron i hanner nifer y BBaChau canolig eu maint sy’n weithredol ym maes bwyd a diodydd. Yn ôl cyfrif y Swyddfa Ystadegau Gwladol o fentrau canolig eu maint, roedd tua 65 o fentrau bwyd a diod â throsiant o £10 -£49 miliwn yng Nghymru yn 2020.

Gyda’r cafeatau hyn, y pwynt y byddem yn ei bwysleisio yw bod cymarebau gweithredu allweddol pryniannau i werthiannau yn debyg iawn yn 3 o’r 4 grŵp, ac mae gan gwmnïau wedi’u gwreiddio, wedi’u lled-wreiddio a chorfforaethau amlwladol teuluol gymarebau pryniannau/ gwerthiannau o 77-83% a chostau cyflogaeth o 10-15%. Dyma’r mathau o gymarebau y byddem yn disgwyl eu canfod mewn cwmnïau dosbarthu bwyd (ac yn eu canfod yn Castell Howell a Harlech); y syndod yw bod y rhan fwyaf o’r cwmnïau prosesu yn edrych yn debyg iawn o safbwynt cymarebau.

Mae’r is-gwmnïau CCC ac ecwiti preifat (ym meysydd cacennau, bariau grawnfwyd ac ati) ymhell i mewn i brosesu fel bod ganddynt gymhareb pryniannau/ gwerthiannau is fel grŵp o 70% a chymhareb uwch o 24% ar gostau llafur fel cyfran o refeniw gwerthiannau. Mae’r hyn y mae’r grŵp hwn yn ei ennill ar bryniannau llai yn cael ei golli ar gostau llafur uwch. Y canlyniad net ym mhob un o’r pedwar grŵp yw bod yr elw arian parod gweddilliol o werthiannau yn gymedrol rhwng 6 ac 8%. Y casgliad yw bod prosesu bwyd a diod, beth bynnag fo’r berchnogaeth, yn weithgaredd ag elw ariannol cul sef rhesymeg y cymarebau strwythur a gweithgarwch cost.

Mae tebygrwydd strwythurau cost ag elw cul yn cyfyngu’r gallu i ddosbarthu arian parod i unrhyw fath o berchennog a’r cwmpas ar gyfer adnewyddu asedau o enillion a gedwir. Mae’r corfforaethau amlwladol teuluol yn allanolynnau gyda 47% o’r arian parod gweddilliol yn cael ei ddosbarthu i’r rhiant; ond mae is-gwmnïau CCC a buddsoddiadau ecwiti preifat yn dosbarthu 17% yn unig, sy’n cyd-fynd fwy neu lai yn union â dosbarthiadau ar gwmnïau wedi’u gwreiddio a’u lled-wreiddio sy’n eiddo teuluol yng Nghymru. Eto, byddem yn dehongli hyn fel cyfyngiad a rhesymeg y cymarebau gweithgarwch.

Mae Arddangosyn AP6 yn rhoi canlyniadau ar gyfer cwmnïau unigol fel y gall darllenwyr ystyried ystod yr amrywiadau rhwng cwmnïau. Caiff y ddau gwmni dosbarthu eu gwahanu ar waelod y tabl i ganiatáu cymariaethau. Mae Arddangosyn AP7 yn ychwanegu portreadau cwmnïau unigol.

**Arddangosyn AP6**: Nodweddion gweithredu ariannol ar gyfer dau ddeg naw o gwmnïau prosesu a dosbarthu bwyd â gweithrediadau yng Nghymru (2015 i 2019)[34]

| | Twf gwerthiannau 2015-2019 % | Twf cyflogaeth 2015 i 2019 % | Pryniannau fel % o refeniw gwerthiannau % | Costau llafur fel % o refeniw gwerthiannau % | Elw arian parod fel % o refeniw gwerthiannau % |
|---|---|---|---|---|---|
| Abergavenny Fine Food | 121 | 80 | 72 | 19 | 9 |
| Braces Bakery | -24 | -13 | 67 | 30 | 3 |
| Brighter Foods Ltd | 44 | 78 | 56 | 23 | 20 |
| Capestone Organic | 94 | 53 | 76 | 19 | 5 |
| Castle Dairies | 102 | 60 | 86 | 11 | 3 |
| Celtica Foods | 4 | -8 | 85 | 12 | 3 |
| Dairy Partners Cymru | 149 | 52 | 88 | 5 | 7 |
| Deeside Cereals | 30 | 27 | 82 | 17 | 1 |
| Easibake Foods | -17 | -12 | 68 | 22 | 10 |
| Eurocaps | 37 | 44 | 69 | 20 | 11 |
| Eurofoods | -12 | 16 | 91 | 5 | 3 |
| FEI Foods | 228 | 160 | 77 | 16 | 7 |
| Glanbia Cheese Ltd | 36 | 8 | 84 | 6 | 10 |
| Halo Foods | 16 | -28 | 73 | 23 | 3 |
| KK Fine Foods | 66 | 81 | 66 | 25 | 9 |
| Memory Lane Cakes | -3 | 1.5 | 68 | 24 | 7 |
| Peters Food Service | -30 | -22 | 69 | 29 | 2 |
| Puffin Produce | 65 | 47 | 70 | 16 | 14 |
| Rachels Dairy | 20 | 7 | 81 | 13 | 6 |
| Radnor Hills | 66 | 47 | 68 | 15 | 17 |
| Randall Parker Foods | -3 | -9 | 91 | 8 | 1 |
| Ready Foods | 1 | 45 | 79 | 18 | 3 |
| Hufenfa De Arfon Cyf | 102 | 57 | 87 | 7 | 6 |
| The Burger Mfg Co. | 25 | 2 | 74 | 10 | 16 |
| Tillery Valley Foods | -5 | 2 | 70 | 30 | 1 |
| Village Bakery (Coed-poeth) | -1 | -9 | 58 | 31 | 10 |
| Village Bakery (Wrecsam) | 40 | 25 | 55 | 21 | 23 |
| Wholebake Ltd | 43 | 32 | 78 | 17 | 5 |
| Bwydydd Castell Howell | 53 | 74 | 82 | 13 | 5 |
| Gwasanaeth Bwyd Harlech | 36 | 36 | 79 | 16 | 5 |
| **Pob Cwmni** | **31** | **21** | **79** | **14** | **7** |

[34] Ffynhonnell: Tŷ'r Cwmnïau ar gyfer adroddiadau ariannol blynyddol, blynyddoedd amrywiol. Nodiadau: Rydym wedi trin Village Bakery (Coed-poeth) a Village Bakery (Wrecsam) fel un cwmni at ddibenion grŵp ond yn dangos y cyfrifon ar gyfer y ddau ohonynt ar wahân yn y tabl hwn. Mae gan Glanbia Cheese weithfeydd yng Nghymru a Gogledd Iwerddon ac rydym wedi neilltuo hanner y gwerthiannau i'r gwaith ar Ynys Môn. Cyfrifir arian parod a ddosbarthwyd, costau prynu ac elw arian parod gweddilliol fel yr esbonnir yn arddangosyn AP5.

**Arddangosyn AP7**: Y sampl o gwmnïau bwyd a diod Cymru wedi'u grwpio yn ôl math o berchnogaeth, 2020

| | | Trosiant 2019 £miliwn |
|---|---|---|
| **Grŵp 1 Eiddo teuluol yng Nghymru (100% o asedau yng Nghymru): 9 o gwmnïau** | | |
| Abergavenny Fine Food | Wedi'u hadeiladu ar gaws gafr ar gyfer archfarchnadoedd ac yn honni mai nhw yw'r cynhyrchydd mwyaf o gaws gafr meddal yn y DU; eiddo teuluol â rheolwr proffesiynol yn y swydd Rheolwr Gyfarwyddwr | 31 |
| Braces Bakery | Eiddo teuluol aml-genhedlaeth ac yn cael ei reoli gan y teulu | 25 |
| Capestone Organic Poultry | Eiddo teuluol, cyw iâr a thwrci o'r radd flaenaf | 25 |
| Castell Howell | Y sylfaenydd oedrannus yw'r perchennog, rheolwyr teuluol a phroffesiynol, wedi buddsoddi mewn warws newydd yn Cross Hands ac yn tyfu ym maes gwasanaethau bwyd. | 140 |
| Celtica Foods | Is-gwmni cig cyfanwerthu Castell Howell. | 15 |
| Castle Dairies | Eiddo teuluol ail-genhedlaeth ac yn cael ei reoli gan y teulu, menyn brand ac wedi buddsoddi mewn llinell daenadwy sy'n cymysgu mewn olew had rêp. | 36 |
| Gwasanaeth Bwyd Harlech | Eiddo teuluol a bellach wedi dod â rheolwyr proffesiynol i mewn i dyfu ymhellach | 33 |
| Radnor Hills | Y sylfaenydd yw'r perchennog a'r rheolwr. Pob math o botelu a chanio | 48 |
| Village Bakery | Safleoedd sy'n eiddo teuluol ac yn cael eu rheoli gan y teulu yn Wrecsam a Choed-poeth. | 37 |
| **Grŵp 1 Dechreuadau fel mentrau cydweithredol yng Nghymru: 2 o gwmnïau** | | |
| Hufenfa De Arfon | Yn buddsoddi mewn llinellau modern i dyfu trwy gyflenwi caws caled i archfarchnadoedd; contract gyda Tesco ers 20 mlynedd. | 65 |
| Puffin Produce | Storiwr, pacedwr a chyflenwr tatws seiliedig ar dechnoleg â chontractau sy'n cynnwys Aldi | 30 |
| **Grŵp 2: Eiddo teuluol (asesau wedi'u rhannu rhwng Cymru a Lloegr): 4 o gwmnïau** | | |
| Burger Manufacturing Company | Is-gwmni gweithgynhyrchu wedi'i leoli yn Llanfair-ym-Muallt i Sparks, cyfanwerthwr cig/ dosbarthwr gwasanaeth bwyd wedi'i leoli yn Enfield yn gwasanaethu de-ddwyrain Lloegr; eiddo teuluol ac yn cael ei reoli gan y teulu (mae Edwards neu Welsh Sausage yn llai) | 12 |

| | | |
|---|---|---|
| Dairy Partners Cymru | Eiddo teuluol ac yn meddu ar ddau safle yn Swydd Gaerloyw a Chastellnewydd Emlyn lle maent yn cynhyrchu caws filat a pasta ac yn honni mai nhw yw prif gyflenwyr caws pizza y DU | 60 |
| Randall Parker Foods | Lladd-dy a chigydd i fanwerthwyr a'r gwasanaeth bwyd, safleoedd yn Andover ac ym Mhowys (Hamer International gynt) | 113 |
| Ready Foods | Yn cyflogi 100 ym maes prydau cig parod, is-gwmni dofednod wedi'u rhewi a'u prosesu a chyd-fenter rhwng teulu Wintley a theulu Lloyds, Lloyds Animal Feeds. | 12 |
| **Grŵp 3: Eiddo teuluol / is-gwmni corfforaeth amlwladol a ddelir yn agos (mae gan y rhiant-gwmni asedau mewn sawl awdurdodaeth): 6 o gwmnïau** | | |
| Deeside Cereals | Mae ailstrwythuro corfforaethol wedi creu gweithrediad annibynnol yn cynhyrchu grawnfwydydd hunan-frand i'r archfarchnadoedd; is-gwmni sy'n eiddo cyflawn i Agrotech Impex PTE, cwmni masnachu a ddelir yn breifat o Singapore a ymgorfforwyd yn 2013; £36 miliwn | 36 |
| Easibake Foods | Cwmni pobi ym Mhont-y-pŵl sy'n cynhyrchu bara garlleg a chynhyrchion artisan ffug i allfeydd gwasanaeth bwyd ac archfarchnadoedd. Mae gweithrediad Cymru yn rhedeg yn gyfochrog â gweithrediad Evron yng Ngogledd Iwerddon; ers 2018, yn eiddo i BAMA, cwmni o'r Unol Daleithiau a reolir yn deuluol ac a ddelir yn breifat sy'n cyflenwi pasteiod i McDonalds ac ati â > $200 miliwn o werthiannau; mae gan Easibake £16 miliwn | 16 |
| Euro Foods | Pencadlys teuluol yng Nghwmbrân ond gweithgynhyrchu a dosbarthu rhyngwladol o fwyd ethnig i'r gwasanaeth bwyd | 85 |
| FEI Foods | Is-gwmni potiau a byrbrydau bwyd microdon wedi'i leoli yn Abertawe i gyd-dyriad Marbour o Ffrainc, a ddelir yn breifat, yn dal i gael ei redeg yn deuluol ac yn pwysleisio annibyniaeth is-gwmnïau cenedlaethol. | 73 |
| Glanbia Cheese | Cynhyrchydd graddfa fawr o gaws mozzarella gwasanaeth bwyd sy'n honni ei fod yn cymryd 20 % o laeth hylif Cymru; cyd-fenter gyda Leprino sy'n eiddo i deulu yn yr Unol Daleithiau a Glanbia CCC y mae 55% ohono yn eiddo i fenter gydweithredol ffermwyr yn Iwerddon; mae ganddynt ddau waith yn Craigavon ac yn Llangefni ac os rhennir y trosiant ar sail 50/50 mae gan Langefni £135 miliwn. | 135 |

| | | |
|---|---|---|
| Tillery Valley Foods | 350 o gyflogeion yn Abertyleri â phrydau parod ar gyfer ysbyty a grŵp gofal iechyd; is-gwmni i Sodexo sy'n gyd-dyriad cyfleusterau y mae'r mwyafrif ohono yn eiddo teuluol ac sydd â'u bencadlys yn Ffrainc. | 30 |
| **Grŵp 4: Is-gwmnïau CCC a buddsoddiadau ecwiti preifat: 8 o gwmnïau** | | |
| Brighter Foods | Ailddechreuodd cyn Brif Swyddog Gweithredol Halo fariau byrbryd iachus yn Nhywyn yn 2014 cyn gwerthu yn 2016 i Real Good Food PLC ond mae'n dal i fod yn brif weithredwr ar y cwmni | 15 |
| Eurocaps | 141 o gyfloegion ym maes capsiwlau gel meddal; ar gyfer bwydydd iechyd a dros y cownter; yn is-gwmni i gyd-dyriad DDC PLC yn Iwerddon ers 1999 | 38 |
| Halo foods | Bariau byrbryd iachus arloesol; symudodd o Dywyn i Gasnewydd; mewn gwahanol fathau o berchnogaeth a bu ganddo ddau berchennog ecwiti preifat ers 2016 | 35 |
| KK fine foods | 500 o gyfloegion, pob math o brydau parod gan gynnwys sous vide; gwerthodd y sylfaenydd i Ter Beke, cyd-dyriad bwyd o Wlad Belg, yn 2017 | 51 |
| Memory Lane Cakes | Rhan o CCC Finsbury y DU, sy'n gwmni daliannol i grŵp o fusnesau pobi ac wedi bod yn berchen ar MLC ers 2002; wedi'i leoli yng Nghaerdydd ac yn cyflogi 800 fel ail gyflogwr preifat mwyaf Caerdydd | 71 |
| | (Sylwer: yn 2018 prynodd Finsbury y cwmni pobi heb glwten ym Mhont-y-pŵl, Ultrapharm, sydd â throsiant o £11 miliwn gan berchnogion teuluol) | 11 |
| Peters Food Company | 900 o gyflogeion ym Medwas a dosbarthu pasteiod a chynhyrchion pob sawrus o safleoedd lluosog; pryniant gan y rheolwyr gyda chefnogaeth Ecwiti Preifat yn 2014 | 59 |
| Rachel's Dairy | Gweler ein hadroddiad ar gyfer y Ffederasiwn Busnesau Bach yn 2015 yn nodi sawl newid perchennog cyn iddo ddod yn gyd-fenter i Lactalis a Nestle, er bod y wefan sy'n ei gyflwyno fel cwmni teuluol a deunydd pacio yn pwysleisio organig nid Cymru | 22 |
| Wholebake Ltd | 167 o gyfloegion ar ddau safle yng ngogledd Cymru ac yn honni mai nhw yw gweithgynhyrchwyr contract mwyaf y DU o fyrbrydau heb glwten; prynwyd yn 2014 gan Ecwiti Preifat Bridges / Ecwiti Preifat cenhadaeth gymdeithasol Ronald Cohen | 27 |

## Atodiad 5: cronfa ddata Atamis o gaffael sector cyhoeddus Cymru

Mae cronfa ddata Atamis yn crynhoi data (seiliedig ar anfonebau) ar bryniant holl gyrff sector cyhoeddus Cymru. Ceir nifer o fodiwlau gweithredu i'r system hon sy'n gysylltiedig â Bloomberg, Thomson Reuters a Thŷ'r Cwmnïau fel y gellir cwestiynu cwmnïau cyflenwi ond nid yw'n darparu rhaniadau categori manwl (e.e. ar gig neu gynnyrch llaeth).

Fel ymchwilwyr allanol, ni allem gael mynediad at y gronfa ddata yn uniongyrchol. Fel yr ydym ni'n ei ddeall, nid oes unrhyw adroddiadau rheolaidd yn cael eu llunio o ddata Atamis ar gyfer adrannau perthnasol. Mae hyn yn rhan o broblem fwy yn ymwneud â defnydd Llywodraeth Cymru o gronfeydd data a data mawr masnachol y mae angen rhoi sylw brys iddi, oherwydd nid oes hyd yn oed cofrestr ganolog o bwy sy'n tanysgrifio i beth ar draws wahanol adrannau.

Yn dilyn cais am ddata, cyflwynodd Atamis adroddiad wedi'i argraffu ar gaffael cyhoeddus Cymru ar gyfer 2018-19 a atebodd gyfres o gwestiynau ysgrifenedig yr oeddem wedi eu cyflwyno. Roedd sesiwn ddilynol hefyd o gymorth mawr i egluro materion a oedd yn deillio o'r adroddiad. Mae'r agweddau sylfaenol yn weddol eglur: mae pryniant cyhoeddus o fwyd yn cynnig ysgogiad uniongyrchol cyfyngedig gan fod y cyfanswm yn fach ac wedi'i rannu ar draws llawer o wahanol gategorïau ac awdurdodau cyhoeddus.

- Mae cyfanswm galw sector cyhoeddus Cymru am wasanaethau bwyd ac arlwyo yn fach. Mae cronfa ddata Atamis yn nodi mai £94 miliwn oedd cyfanswm gwariant sector cyhoeddus Cymru yn 2018-19, ac roedd £71 miliwn ohono ar gyfer gwasanaeth bwyd sector cyhoeddus a £23 miliwn ar arlwyo a brynwyd (Arddangosyn AP8)[35]. At ddibenion cymharu, byddai gan un BBaCh canolig ei faint yng Nghymru ym maes prosesu bwyd drosiant blynyddol o £10-£30 miliwn yn nodweddiadol.

- Rhennir cyfanswm y gwariant rhwng llawer o wahanol gategorïau o gynnyrch fel bod y galw sydd ar gael i unrhyw brosesydd unigol yn llawer llai. Nid yw cronfa ddata Atamis yn darparu rhaniadau categori ond cyfrifodd adroddiad *Strategic Marketing* ar gyfer y Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol yn 2013 mai cig, llaeth a chynnyrch llaeth a ffrwythau a llysiau oedd y tri chategori mwyaf; a chig oedd y categori unigol yn gyfrifol bryd hynny am lai na 15% o gyfanswm y gwariant[36]. Mae'r perthynoleddau hyn yn annhebygol o fod wedi newid yn sylweddol. Os felly, mae gwariant cyhoeddus Cymru yn y tri chategori mwyaf (cig, llaeth a chynnyrch llaeth, ffrwythau a llysiau) bellach werth dim mwy na £10-15 miliwn ym mhob categori ar draws Cymru gyfan.

- Rhennir cyfanswm y gwariant rhwng llawer o wahanol awdurdodau lleol. Caiff 90% o gyfanswm y gwariant blynyddol ei wneud gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd (Arddangosyn AP9). Ond mae gan Gymru 22 o awdurdodau lleol a 7 o fyrddau iechyd. Mae rhywfaint o gydgrynhoi galw yn digwydd ond nid yw hyn yn cael ei fesur ar draws y system

[35] Mae'r rhaniad hwn yn fras gan nad yw categorïau "arlwyo" a "cyflenwadau a gwasanaethau cyffredinol" Atamis yn cyfateb yn unol â gwasanaeth bwyd ac arlwyo a brynwyd.
[36] *Public Sector Food Purchasing in Wales, Final Report* 2013, t.19.

a bydd bob amser yn cael ei gyfyngu gan dopograffi Cymru fel mai cydgrynhoi rhanbarthol yw'r unig opsiwn realistig.

**Arddangosyn AP8**: Gwariant sector cyhoeddus Cymru ar wasanaethau bwyd ac arlwyo ac anfonebau wedi'u rhannu yn rhai lleol ac nad ydynt yn lleol[37]


| | Gwariant sector cyhoeddus | |
|---|---|---|
| | £ miliwn | Cyfran o gyfanswm y gwariant |
| **Cyfanswm anfonebau bwyd sector cyhoeddus** | **95** | **100%** |
| Rhannwyd yn ôl: | | |
| Arlwyo | 72 | 76% |
| Cyflenwadau a gwasanaethau cyffredinol | 23 | 24% |
| Rhannwyd yn ôl: | | |
| Lleol ar sail anfoneb a chod post Cymru | 58 | 61% |
| Ddim yn lleol ar sail anfoneb a chod post | 37 | 39% |

Mae'r wybodaeth a gasglwyd o gronfa ddata Atamis yn adlewyrchu diddordeb hirhoedlog llunwyr polisi Cymru yn yr hyn yr ydym yn ei alw yn "lleoliaeth cod post". Mae cronfa ddata Atamis yn cyfrif cyflenwyr Cymru ar sail cod post yr anfoneb ac yn dangos bod gan 61% o anfonebau bwyd sector cyhoeddus Cymru godau post yng Nghymru yn 2018-19. Cyflogwyd ymgynghoriaeth CLES yn 2020 i ddosbarthu anfonebau byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn ôl cod post swyddfa gofrestredig y cwmni cyflwyno. Efallai y ffefrir dosbarthiad CLES, ond ni all unrhyw fesurau seiliedig ar anfonebau ddweud llawer wrthym am darddleoedd cynnyrch neu le mae gwerth yn cael ei ychwanegu.

Nid oes amheuaeth bod cyfran y cynhyrchion bwyd sy'n tarddu o Gymru neu a brosesir i raddau helaeth yng Nghymru yn llawer is na'r hyn a ddynodir gan god post anfonebau neu swyddfa. Daw'r unig fesur o darddle sydd ar gael o adroddiad *Strategic Marketing* yn 2013. Roedd hwn yn holi cyflenwyr haen gyntaf am ffynhonnell yr hyn yr oeddent yn ei gyflenwi mewn 12 categori gan gynnwys cig, llaeth a chynnyrch llaeth, ffrwythau a llysiau: yn 2013, prynwyd 69% yn ôl cyfanswm gwerth yn y categorïau hyn yng Nghymru wedyn ond dim ond 33% yr oedd yn hysbys iddo gael ei fagu, ei dyfu, ei brosesu neu ei weithgynhyrchu yng Nghymru.[38] Nid oes unrhyw fesur anfonebau presennol yn dweud wrthym a yw'r gymhareb allweddol hon wedi cael ei newid neu a ellir ei newid.

[37] Ffynhonnell: cronfa ddata Atamis.
Sylwer: 1 Ebrill – 31 Mawrth yw blwyddyn ariannol Atamis. Mae 'lleol' yn golygu bod yr anfoneb yn cael ei hanfon o swyddfa neu gangen yng Nghymru.
[38] *Public Sector Food Purchasing in Wales, Final Report* 2013, t. 19.

**Arddangosyn AP9:** Caffael sector cyhoeddus yn ôl pryniant




Mae angen rhoi'r holl wybodaeth hon yng nghyd-destun system fwyd Cymru. Fel yr ydym wedi nodi, mae gan gynhyrchwyr arbenigedd cul ym meysydd cig a chynnyrch llaeth, mae'r system o reidrwydd yn cynnwys lefelau uchel o fewnforio ac allforio ac ati. Mae'r sector prosesu bwyd angen sail gwerth ychwanegol fwy ond ni ellir sicrhau hyn yn synhwyrol trwy atal dadleoliad ac annog awtarchiaeth. Fel y mae hi, mae Llywodraeth Cymru yn talu Atamis i gasglu gwybodaeth am godau post anfonebau bwyd sydd ag ychydig o berthnasedd o ran polisi.

Fel pob cronfa ddata, mae Atamis yn cynhyrchu rhywfaint o wybodaeth bellach ddiddorol. Yn yr achos hwn, yr wybodaeth bellach yw nad yw'r sector cyhoeddus fel rheol yn gwsmer cyfradd fawr pwysig i broseswyr bwyd y mae eu prif fusnes mewn mannau eraill gyda chwsmeriaid preifat. Hefyd, mae'r cysylltiadau sector cyhoeddus pwysig gyda'r dosbarthwyr gwasanaeth bwyd fel Castell Howell sydd, fel yr ydym yn ei ddadlau yn yr adroddiad hwn, yn borth i alw cyfradd fawr.

Cynhaliodd adroddiad *Strategic Marketing* yn 2013 arolwg o 150 o gyflenwyr bwyd a diod i'r sector cyhoeddus a ganfu bod y sector cyhoeddus ar gyfartaledd yn gyfrifol am 10% o'u trosiant.[39] Gellir cadarnhau'r canlyniad hwn trwy groesgyfeirio â chronfa ddata bresennol Atamis sy'n codi'r pwynt nad proseswyr bwyd yw cyflenwyr mwyaf y sector cyhoeddus ond dosbarthwyr gwasanaeth bwyd sy'n pentyrru'r archebion gan eu bod yn gallu cyflenwi llawer o wahanol linellau cynnyrch o un danfoniad; y cyflenwr unigol mwyaf yw Castell Howell a oedd â busnes sector cyhoeddus gwerth £17 miliwn yn 2018-19 yn erbyn trosiant o fwy na £140 miliwn.

[39] *Public Sector Food Purchasing in Wales, Final Report* 2013, t. 6.

Hefyd, mae'r diddordeb cul mewn codau post a dadleoliad pryniant yn tynnu sylw oddi wrth y cwestiwn mwy diddorol o wahaniaethau o ran sut mae awdurdodau lleol yn trefnu eu gwariant a'u darpariaeth o wasanaethau. Ni ddylid gwthio'r diwygiad o bryniant cyhoeddus i elwa BBaChau heb ystyried ar yr un pryd y potensial o gwmnïau masnachu sy'n bwndelu pryniant a darparu gwasanaethau mewn un BBaCh wedi'u greu o'r newydd ac arbenigol.

Y pwynt mwyaf trawiadol yn nata Atamis yw (fel yn y ffigur uchod) nad oes unrhyw gysylltiad eglur rhwng maint gwariant ar fwyd a phoblogaeth awdurdodau lleol. Mae Sir y Fflint â phoblogaeth sirol o 155,000 yn gwario mwy ar fwyd ac arlwyo na Chaerdydd y mae gan ei hardal awdurdod lleol boblogaeth o 355,000. Trefniant y gwasanaeth yw'r esboniad. Sir y Fflint a Chasnewydd sydd â'r gwariant mwyaf ar fwyd gan eu bod wedi rhoi arlwyo a glanhau ar gontract allanol i gwmnïau masnachu awdurdod lleol hyd braich sydd i bob pwrpas yn BBaChau a reolir yn broffesiynol sy'n anfonebu eu rhiant-gwmni ar gyfer llafur a deunyddiau arlwyo ac yn rhydd i sicrhau busnes nad yw'n gysylltiedig â'r awdurdod lleol.

Mae Arlwyo a Glanhau Newydd Sir y Fflint yn gwmni deillio diweddar â throsiant o £8 miliwn a 415 o gyflogeion. Mae Newport Norse yn fenter ar y cyd gyda Chyngor Sir Norfolk a arloesodd cwmni masnachu awdurdod lleol. Mae cwmni masnachu awdurdod lleol Casnewydd wedi cynyddu trosiant o £7.3 i £12.4 miliwn ers ei sefydlu yn 2014, cadarnhawyd ei fod yn cydymffurfio'n llawn ar ôl archwiliad CIPFA ac mae'n talu'r cyflog byw i'r holl staff sydd wedi'u contractio[40].

[40] https://norsegroup.co.uk/wp-content/uploads/2020/09/A-Guide-to-Newport-Norse-5f4f5c4550c52.pdf